

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

Dyddiad: 9 Medi 2016

Amser: 9.30am

Lle: Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

AGENDA

- | | | | |
|----|---|---------------|------------|
| 1. | Croeso ac ymddiheuriadau | 09:30 - 09:35 | |
| 2. | Cofnodion cyfarfodydd Chwefror a Gorffennaf, y camau gweithredu ac unrhyw faterion eraill | 09:35 - 09:40 | |
| 3. | Datblygiadau diweddaraf y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys y gwaith o ddatblygu portffolio | 09:40 - 10:10 | |
| | <u>I gynnwys:</u> | | |
| | (a) Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru | 10:10 - 10:35 | WPMC(16)74 |
| | (b) Rhaglenni ERDF | 10:35 - 11:00 | WPMC(16)75 |
| | (c) Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 11:00 - 11:25 | WPMC(16)76 |
| | <i>Egwyl **11:25am – 11:35am**</i> | | |
| 4. | Addasu'r Rhaglen Datblygu Gwledig | 11:35 – 12:00 | WPMC(16)77 |
| 5. | Themâu sy'n cynnwys mwy nag un maes: yr Adroddiad Blynyddol ar Gyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd | 12:00 – 12.20 | WPMC(16)78 |
| 6. | Y diweddaraf am Gymorth Technegol | 12.20 – 12:35 | WPMC(16)79 |
| 7. | Cyflwyniad: Rhanbarth Dinas Bae Abertawe | 12:35 – 12:55 | |
| 8. | Fformat a threfniadau'r Pwyllgoryn y dyfodol | 12:55 – 13.15 | WPMC(16)80 |
| 9. | Unrhyw fater arall | 13.15 – 13.20 | |

Cinio 1:20pm – 2.00pm

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 - 2020
PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU (PMRhC)**

**Dydd Gwener 12 Ionawr 2016
Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful
09:30 – 13:00**

NODIADAU CYFARFOD

EITEM 1: Croeso ac Ymddiheuriadau

- Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i ddegfed cyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni 2014-2020 Cymru (y Pwyllgor). Nodwyd bod un swyddog o'r Comisiwn Ewropeaidd, Guy Flament, Swyddog Desg ar gyfer Cymru, DG Regio yn bresennol yn y Pwyllgor am y tro olaf.
- Un swyddog desg sydd gan Gymru bellach yn gyfrifol am ddwy Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) - Joanna Gawrylczyk-Malesa, o DG Empl, fydd yn cyflawni swyddogaeth gynghori i'r Pwyllgor.
- Croesawyd un aelod newydd, Paul Byard (PB), cynrychiolydd Busnes a Menter.

EITEM 2: Cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr, camau gweithredu a'r materion oedd yn codi

- Dywedodd Terri Thomas (TT) fod sylw a wnaed gan swyddogion DG Agri wedi cael ei adael allan o'r cofnodion ac y byddai angen ei gynnwys.
- Dywedodd Damien O'Brien (DOB), dan Eitem 5 yn y Pwyntiau Gweithredu, y byddai'r Pwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, yn derbyn cyflwyniad gan Bartneriaeth Bae Abertawe yn y cyfarfod nesaf. Câi hyn ei ddilyn gan gyflwyniadau mewn cyfarfodydd dilynol o Dde-ddwyrain Cymru, Canolbarth Cymru ac wedyn Gogledd Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod canolbwynt rhanbarthol i bob cyfarfod o'r Pwyllgor a byddai'n rhoi trosolwg ar y materion a'r gweithgareddau oedd yn mynd rhagddynt ym mhob rhanbarth. Roedd y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig hwn.
- Dywedodd swyddog o'r Comisiwn Ewropeaidd y dylai'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ynghylch Meini Prawf Dethol diwygiedig Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac Asesiad Ex Ante Offerynnau Ariannol ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 gael eu gosod ar yr agenda fel eitemau ar wahân. Gofynnwyd am lunio agenda a chofnodion diwygiedig i adlewyrchu'r pwynt hwn.

Pwynt Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i lunio a chylchredeg fersiwn ddiwygiedig o'r agenda a sicrhau bod y cofnodion yn cael eu drafftio'n unol â'r agenda ddiwygiedig.

EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI), gan gynnwys datblygu portffolio:

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 64 o weithrediadau i gyd wedi cael eu cymeradwyo hyd yn hyn ar gyfer cymorth gwerth £496 miliwn gan y Gronfa Strwythurol. Gydag arian cyfatebol cysylltiedig, bydd y gweithrediadau hyn yn eu tro yn gyrru buddsoddiad o dros £1 biliwn.
- Tynnwyd sylw at Sefydliad Ymchwil Peirianeg a Deunyddiau Uwch, fel prosiect ymchwil ac arloesedd oedd yn cael ei gyllido gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Yn ddiweddar y cafodd hwn ei gymeradwyo ac mae'n cael ei arwain gan y sector preifat.
- Tynnwyd sylw hefyd at dri phrosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): GWLAD, prosiect sgiliau, a noddir gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant; METAL 2, prosiect sgiliau a noddir gan Brifysgol Abertawe; a Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (Progress for Success), prosiect pobl ifanc a noddir gan Lywodraeth Cymru. Er mai yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd y mae'r prosiectau hyn i gyd, nodwyd bod llawer o weithgaredd hefyd yn Nwyrain Cymru, gyda 25 o weithrediadau wedi eu cymeradwyo eisoes a rhagor i gael eu cyhoeddi yn yr wythnosau i ddod.
- Cafodd cynlluniau newydd, oedd yn cael eu hariannu gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 -2020, eu cyhoeddi yn y Digwyddiad 'Dechrau Tymor' yn Stadiwm Liberty, Abertawe ar 11 Chwefror. Dywedodd Terri Thomas fod y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi lansio'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, y Cynllun Grant Buddsoddi mewn Busnes Coed, y Cynllun Rheolaeth Gynaliadwy (sy'n debyg i'r Gronfa Natur flaenorol), a Grantiau Coedwigaeth a chynlluniau yn agor i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y prosiectau a gafodd eu cymeradwyo hyd yma yn adlewyrchu i raddau helaeth y penderfyniad i ganolbwyntio ar sefydlu 'prosiectau asgwrn cefn' yn gyflym ar ddechrau cyfnod y rhaglen, gyda'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gymeradwywyd yn gynnar yn cael eu datblygu gan Adrannau Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch a'r Trydydd Sector. Fodd bynnag, disgwyliad y byddai'r amrywiaeth o brosiectau a gymeradwyir yn awr yn ehangu i gynnwys cynigion mwy rhanbarthol.
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor ei bod yn anochel mai bychan fydd nifer y prosiectau a gaiff eu cynnig gan y sector preifat, yn rhannol oherwydd nad yw'n bosibl i fuddiolwyr wneud elw o redeg prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Yr un oedd y sefyllfa gyda rhaglenni 2007-13. Fodd bynnag, mae data o Raglenni'r Gronfa Strwythurol 2007-13 yn cadarnhau bod y sector

preifat wedi bod yn gyfrwng i gyflawni llawer o weithgareddau a gafodd eu caffael drwy brosiectau oedd yn cael eu hariannu gan yr UE. Mae'r gwaith caffael ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 bellach wedi cychwyn a disgwylir i duedd gyffelyb ddod i'r amlwg. Yn ychwanegol at y prosiectau a gafodd eu cymeradwyo, hysbyswyd y Pwyllgor fod cyflenwad iach iawn o brosiectau ar y ffordd ar draws blaenoriaethau Rhaglenni'r Gronfa Strwythurol: ac felly nad oedd pryderon ynghylch bylchau mawr yn y ddarpariaeth.

- Cadarnhawyd bod gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020) gynigion gwerth £124 miliwn yn y cam cynllunio busnes. Dywedodd TT fod Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) wedi cael ei lansio yn y 'Digwyddiad Dechrau Tymor' ar 11 Chwefror 2016, ar ôl cael ei lansio cyn hynny ar lefel y Deyrnas Unedig, gyda Chymru wedi ei dynodi'n Gorff Cyfryngol. Caeodd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn ddiweddar gyda 155 Datganiad o ddiddordeb, ac mae hi wedi ei gordanysgrifio. Lansiwyd y Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd (EIP) yn yr wythnosau diwethaf gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd. Bydd yr EIP yn datblygu grwpiau gweithredol. Mae contractau cyflawni Cynllun Cyswllt Ffermio wedi eu dyfarnu'n llawn ac mae'r cynllun hwn yn mynd rhagddo.
- Hysbyswyd y Pwyllgor fod Llysgenhadon Cyllido yr Undeb Ewropeaidd wedi cyhoeddi eu hadroddiad dros dro, ac y disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth.
- Adroddwyd bod y gwaith o gau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn mynd ymlaen yn dda, gyda dwy ran o dair o weithrediadau (oddeutu 200 o brosiectau) eisoes wedi eu cau, gan adael naw deg a chwech o weithrediadau eto i gael eu cau.
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r Gwerthusiad Ex Post o Raglenni 2007-2013 yn cychwyn yn fuan ac y bydd yn ategu gwerthusiadau prosiectau unigol gan fod o gymorth i dynnu allan wersi i'w dysgu o'r rhaglenni yn eu cyfanrwydd. Mae digwyddiad i gael ei gynnal yn hydref 2016 i roi cyfle i randdeiliaid adfyfrio ar y wybodaeth sy'n deillio o werthusiad y rhaglen ac o werthusiadau'r prosiectau hefyd.
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER, fel rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, yn awr yn datblygu prosiectau yn eu hardaloedd, gyda recriwtio yn mynd ymlaen ar gyfer Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru.
- Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd Digwyddiad Blynyddol Horizon 2020 yn cael ei gynnal ar 17 Mawrth. Hefyd, mae Diwrnod Ewrop 2016 ar 9 Mai a bydd WEFO yn ymuno â noddwyr prosiectau a phartneriaid i ddathlu llwyddiannau Cronfeydd Ewrop yng Nghymru.

- Hysbyswyd y Pwyllgor fod ffigurau'r gyllideb a roddwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor ar gyfer rhaglenni'r Gronfa Strwythurol yn cynnwys swm cysylltiedig â'r Gronfa Perfformiad o 6%. Mae gallu WEFO i gael mynediad at y ganran hon o gyllid y rhaglen yn dibynnu ar berfformiad boddhaol y rhaglen, yn y cyfnod hyd at 2018, wedi ei fesur yn erbyn y metrigau a sefydlwyd o fewn y Fframwaith Perfformiad y cytunwyd arno. Byddai cynnydd anfoddhaol yn rhoi'r dewis i'r Comisiwn Ewropeaidd naill ai dal y cyllid yn ôl neu ei ailddyrannu i flaenoriaethau eraill.
- Adroddodd WEFO ei bod yn parhau i weithio tuag at enwi ei System Rheoli a Threfnu Cronfeydd Strwythurol.

Pwyntiau Trafod:

- Teimlai aelodau'r Pwyllgor, er eu bod yn cydnabod mai cyfnod cynnar oedd hwn yn hanes gweithredu'r Rhaglen, ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor ddechrau derbyn adroddiadau manylach oedd yn dangos sut yr oedd perfformiad y rhaglen yn datblygu.
- Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb i wybod mwy am y graddau yr oedd y prosiectau sy'n cael eu cymeradwyo yn troi allan i fod yn wahanol i'r rheiny a gymeradwywyd dan raglenni 2007-2013 ac i ba raddau y mae ganddynt y potensial i gael effeithiau trawsnewidiol ar economi Cymru.
- Gwnaeth aelodau'r sylw bod y ffigurau gwerth ychwanegol gros (GVA) diweddaraf yn awgrymu nad yw Cymru'n perfformio'n dda: mae cynhyrchiant yn aros yn wastad tra bod arwyddion o adferiad yn Lloegr. Teimlai'r aelodau fod ennill mwy o allu i fanteisio ar gronfeydd yr UE yn golygu gwneud pethau'n wahanol: er enghraifft, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gosod pwyslais ar arbenigo smart a byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor dderbyn trosolwg ar y modd y mae'r gweithrediadau sydd wedi cael eu cymeradwyo yn cysylltu â'r agenda hon.
- Gwnaeth aelod o'r Pwyllgor y sylw bod yna angen hefyd i barhau i edrych ar gyfleoedd ariannu ehangach a'r modd y mae'r rhain yn ychwanegu gwerth i Gronfeydd ESI.
- Teimlid ei bod yn bwysig i wahodd economegwyr Llywodraeth Cymru i roi gwybod i'r Pwyllgor am y tueddiadau diweddaraf o fewn economi Cymru: gofynnodd y Cadeirydd am i bapur gael ei gynhyrchu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.
- Gwnaeth y Cadeirydd y sylw ei bod yn neilltuol o bwysig medru dangos effaith arian yr Undeb Ewropeaidd yng nghyd-destun refferendwm yr UE oedd i ddod. Mae digwyddiadau sydd i ddigwydd yn fuan, sydd wedi eu cynllunio mewn cysylltiad â Horizon 2020 a Diwrnod Ewrop, yn cynrychioli cyfleoedd

pwysig i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r manteision y mae arian yr Undeb Ewropeaidd yn eu dwyn i Gymru. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd ynghylch yr hyn y gallai Partneriaid ei wneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ymhellach, mynegwyd pryder ynglŷn â'r graddau yr oedd y Ddeddf Lobïo yn cyfyngu ar swyddogaeth y trydydd sector o ran hybu'r Cronfeydd Ewropeaidd. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y sector wedi gofyn am gyngor gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol ar y pwynt hwn.

- Hysbyswyd y Pwyllgor fod gan rai awdurdodau lleol gynigion yn eu lle i hybu aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd ac y byddai o gymorth, yn y cyd-destun hwn, pe bai'r ffeithiau a'r ffigurau ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol yn cael eu rhannu drwy gyfrwng gwefan WEFO.
- Nododd y Pwyllgor nad oedd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru wedi mabwysiadu safbwynt eto ar Refferendwm yr UE ond ei fod wedi cyhoeddi dogfen oedd yn gosod allan y ffeithiau a'r ffigurau perthnasol fel sail i drafodaeth.
- Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor a oedd y gwaith o recriwtio ar gyfer Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi ei gwblhau erbyn hyn.

Ymatebion:

- Dywedodd TT fod 25 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru a bod y rhain wrthi'n cael eu hystyried. Roedd Gweinidog Adnoddau Naturiol wedi gofyn i swyddogion sicrhau cydbwysedd rhywiau o fewn y Grŵp.
- Roedd DOB yn cydnabod natur sylfaenol y cwestiynau oedd yn cael eu codi ynghylch p'un a oedd gan y gweithrediadau oedd yn cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd y potensial i gyflawni trawsnewid gwirioneddol. Cadarnhaodd mai'r bwriad o hyd oedd buddsoddi'n synhwyrol mewn ymyriadau sy'n cyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol ac a all fod o gymorth i ddod ag egni newydd i economi Cymru. Yn y cyd-destun hwn awgrymodd DOB y gallai cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol elwa o dderbyn diweddariadau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn rhanbarthol ac yn thematig. Byddai hyn yn rhoi 'fffenestr' i aelodau'r Pwyllgor gael tawelwch meddwl ar y graddau yr oedd y nod o fuddsoddi mewn gweithrediadau strategol, mewn ffordd integredig a chydgyfeiriedig, yn cael ei sylweddoli.
- Dywedodd DOB fod gwaith gydag economegwyr Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo'n barhaus o ran asesu effaith y rhaglenni ac y byddai WEFO yn trefnu i'r Pwyllgor dderbyn diweddariadau rheolaidd ar y tueddiadau

economaidd fel y gofynnwyd. Cytunai DOB y byddai'r papur y gofynnodd y Cadeirydd amdano hefyd yn gymorth i roi mwy o eglurder i aelodau'r Pwyllgor.

- Cadarnhaodd DOB y byddai digwyddiad Horizon 2020 oedd i ddod yn cynnig cyfle pwysig i lansio'r adroddiad blynyddol ar y modd y mae Cymru wedi gwella ei pherfformiad o ran cael mynediad at y ffrwd ariannu hon. Roedd yn cynnig llwyfan defnyddiol i gyhoeddi llwyddiannau Cymru a'r gwaith pwysig sy'n parhau i fynd ymlaen mewn partneriaeth gydag AU a busnesau. Byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl i WEFO ddangos sut y mae cefnogaeth y Gronfa Strwythurol wedi cael ei alinio i gynorthwyo rhanddeiliaid Cymru i elwa i'r eithaf o Horizon 2020, ERDF ac ESF, gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio i hybu capasiti AU a sgiliau.
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd Diwrnod Ewrop yn cynnwys wythnos o gyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd ac y bydd WEFO yn sicrhau bod partneriaid a noddwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi eu bwriadu i hybu manteision y cronfeydd i unigolion, busnesau a chymunedau.
- Roedd DOB o'r farn na châi'r rhan y byddai cyrff y trydydd sector yn ei chwarae yng ngweithgareddau Diwrnod Ewrop ei disgrifio fel 'lobïo': mae gan yr holl noddwyr ddyletswydd gyfreithiol i hybu manteision y cronfeydd i fuddiolwyr ac i ddathlu'r gwerth a ychwanegir gan y Cronfeydd Ewropeaidd.
- Dywedodd DOB ei fod wedi bod yn fwriad ar hyd yr amser i'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau manylach ar berfformiad rhaglenni unwaith y byddai'r buddsoddiadau a'r ymrwymadau yn dechrau dwyn ffrwyth. Disgwylir y bydd adrodd o'r fath yn cychwyn yn ddiweddarach yn 2016.
- Cytunai DOB ei bod yn bwysig i bartneriaid feddu ar adroddiadau hawdd eu cael; y negeseuon mwyaf grymus yw'r rheiny sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae pobl a busnesau wedi elwa o'r Cronfeydd Ewropeaidd. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn rymus ac, oherwydd hyn, mae WEFO wedi defnyddio Trydar yn helaeth. Mae'n dal yn bwysig bod yr holl randdeiliaid yn ymroi i sôn am fanteision y cronfeydd, i ategu'r negeseuon hyn gan y llywodraeth.

EITEM 3 (a): Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

- Esboniodd TT fod llawer o'r cynnydd a wnaed ar Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig wedi ei gynnwys yn y Cyflwyniad blaenorol ar Gronfeydd ESI. Mae cynnydd wedi ei wneud gyda chynlluniau'n cael eu hagor. Mae llawer o wariant y Rhaglen hyd yn hyn wedi bod o dan gynlluniau Glastir, gan fod y rhain yn gontractau oedd yn bod eisoes. Darparwyd manylion y cynlluniau ym mhob ardal fesul sector yn y papur a roddwyd i aelodau'r Pwyllgor.

Pwyntiau Trafod

- Croesawodd aelod yr adroddiad cynnydd ar Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch p'un a oedd yna gynlluniau o gwbl i lansio cynllun cyffelyb i Gynllun Cefnogi Dyfodiaid Ifanc yn y Rhaglen newydd. Gofynnodd yr aelod hwn hefyd am y cysylltiadau rhwng y Rhaglen hon a Horizon 2020.
- Gwnaeth aelod sylw bod y Mesurau Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi yn anelu at ymgysylltu â 13,000 o ffermwyr, sy'n nifer fawr, o gofio mai 18,000 o ddaliadau ffermydd sydd yna yng Nghymru. Holai'r aelod hwn pa gamau a gaiff eu cymryd i wyllo rhag cyfrif yr un buddiolwyr ddwywaith. Tynnodd aelod arall sylw at y ffaith mai effaith y buddsoddiad sy'n bwysig, nid o angenrheidrwydd nifer y buddiolwyr yr ymgysylltir â hwy.
- Soniodd aelod am y cyfarfod a gafodd Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru gyda Chomisiwn Ewropeaidd Cymru ym mis Ionawr a gofynnodd a oes cynlluniau pellach ar gyfer gweithgaredd cyfathrebu i hybu'r cronfeydd.

Ymatebion:

- Dywedodd TT fod yna gynlluniau yn y dyfodol i gael mynediad at arian Horizon 2020, ond mai megis cychwyn y mae'r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd ac y byddai angen iddi ddatblygu dealltwriaeth o swyddogaeth Horizon 2020 i'r sectorau, yn ogystal â natur y cyrff sydd â rhan mewn cael mynediad at yr arian hwn. Gyda golwg ar bobl ifanc oedd yn dod i mewn i ffermio, mae'r Rhaglen newydd yn cynnwys darpariaeth i gefnogi'r grŵp hwn, er bod y ffordd fwyaf effeithiol o gynnig y cymorth hwn eto i gael ei phenderfynu. Newid yn y Rhaglen newydd yw rheoliadau newydd ynghylch swm a natur y gefnogaeth a ddarperir, gan mai ar lefel yr unigolyn y caiff y buddsoddiad ei wneud. Mae trafodaethau'n mynd ymlaen ynghylch y ffordd orau i gynnig y gefnogaeth hon, ond byddai dewisiadau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys elfen ffermwyr ifanc ar gyfer taliadau a wneir dan Golofn 1, ac elfennau a dargedir yng nghynlluniau Grant Cyswllt Ffermio a Chynhyrchiant Cynaliadwy.
- Dywedodd TT y bydd hi'n gofyn i Gary Haggerty am eglurder ar y pwynt hwn. O dan Reoliadau Ewropeaidd, pan fydd buddiolwr yn cael mynediad at ddwy elfen wahanol sy'n cael eu cyllido dan y Mesurau Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi, mae hyn yn cael ei gyfrif fel dau fuddiolwr. Fodd bynnag, mae yna system reoli perthynas â chwsmeriaid yn cael ei defnyddio ar gyfer y mesurau hyn ac efallai y bydd yn bosibl ei defnyddio'n fwy smart.

- Dywedodd TT fod yna weithgareddau parhaus i hybu'r cronfeydd, a bod cytundeb yn ei le. Mae amrywiaeth o sianelau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys: gwefan Llywodraeth Cymru, y cyfryngau cymdeithasol, llyfrynnau gydag astudiaethau achos o brosiectau arloesol, a gweithdai thematig. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda thîm Cyfathrebu WEFO a'r Isadran Materion Ewropeaidd ac Allanol.

Meini Prawf Dethol Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)

- Mae dau o'r Meini Prawf arfaethedig yn ymwneud â chynlluniau newydd: Cynllun Buddsoddi Busnes Coed a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Mae un diwygiad hefyd mewn perthynas â'r Mesur Datblygu Cadwyn Gyflenwi a Chydweithredu.

Pwyntiau Trafod

- Holodd un aelod pam roedd ymgeiswyr yn cael eu sgorio yn erbyn 'ychwanegedd' fel un o'r meini prawf, yn hytrach na bod hyn yn cael ei osod fel rhywbeth gofynnol o'r cychwyn. Gofynnodd yr aelod hwn hefyd pam roedd yr allbynnau'n cael pwysiad o lai na 10% ar y maen prawf sgorio. Gofynnwyd hefyd pam roedd y trothwy, ar dudalennau dau a phump o bapur WPMC(16)73 Atodiad 1, ar gyfer y meini prawf wedi ei osod fel 'naw isafbwynt o leiaf'.
- Dywedodd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd y câi papur ar fersiwn atgyfnerthedig ddiwygiedig o Feini Prawf Dethol EAFRD ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
- Awgrymodd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd ymhellach y gellid sôn yn y papur, Meini Prawf Dethol, a gafodd ei gylchredeg fod barn ffafriol y Pwyllgor wedi ei roi drwy weithdrefn ysgrifenedig ar 18 Medi 2015.

Ymatebion:

- Atebodd TT fod y meini prawf dethol hyn yn ymwneud â datganiadau o ddiddordeb cychwynnol, sy'n cael eu sgorio rhwng 0 a 5 ar 'ychwanegedd'. Mae gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio 'ychwanegedd' fel y gellir eu sgorio yn ei erbyn. Cam hidlo yw cam y Datganiad o Ddiddordeb (EOI), a dylid nodi nad yw'r holl is-fesurau yn cael eu monitro yn ôl allbynnau. Mae mewnbynnau yn allweddol ar gyfer rhai is-fesurau, megis canran y cig oen Cymreig sy'n cael ei brosesu, yn hytrach nag allbynnau megis nifer y swyddi a gafodd eu creu a'r trosiant. Gan arweinwyr polisi y mae'r trothwy sgorio wedi ei osod, ac felly bydd TT yn gofyn am eglurder ganddynt ar y pwynt hwn. Dylid nodi y byddai

Datganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus yn mynd drwy broses ymgeisio lawn. Ychwanegir esboniad ar y pwynt hwn ar y ffurflen.

- Dywedodd TT y bydd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod nesaf, yn derbyn papur ar y Meini Prawf Dethol a'r berthynas rhwng y rhain a'r i'r Is-fesurau.
- Yn amodol ar gymryd yr esboniadau a awgrymwyd i ystyriaeth, rhoddodd y Pwyllgor ei farn gadarnhaol ar y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf dethol.

Eitem3(b) Diweddariad ar Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

Wrth roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd gyda Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gwnaeth Sue Price (SP) y pwyntiau canlynol:

- Mae rhaglenni ERDF yn parhau i wneud cynnydd da. Gyda'i gilydd, roedd 26 o weithrediadau wedi cael eu cymeradwyo, 16 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 10 yn Nwyrain Cymru. Mae'r prosiectau sydd ar y ffordd yn cynnwys yr ychydig o brosiectau asgwrn cefn sy'n weddill. Mae yna gyflenwad iach iawn o brosiectau ar y ffordd.
- Cronfa Fusnes Cymru sy'n mynd i olyn JEREMIE.
- Mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn gwneud gwaith da o ran blaenoriaethu safleoedd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ar draws y rhanbarthau.
- Mae WEFO yn disgwyl cyllido rhai prosiectau i lenwi bylchau er mwyn ychwanegu gwerth at y gweithrediadau asgwrn cefn.
- Mae dull JASPERS yn cael ei fabwysiadu ar gyfer prosiectau mawr, megis y Metro. Alan O'Brien yw arbenigwr penodedig JASPERS ar gyfer y Metro ac roedd cyfarfod wedi ei gynnal gydag ef yn ddiweddar.
- Mae'n dal yn rhy fuan i gasglu data ar y ffordd y mae gweithgareddau a gyllidir drwy ERDF yn cyfrannu tuag at godi'r gwerth ychwanegol gros a chynhyrchiant. Fodd bynnag, mae proses gymeradwyo WEFO yn ceisio sicrhau mai dim ond gweithrediadau a all sicrhau'r canlyniadau gorau o ran eu cyfraniad i'r economi ehangach fydd yn cael eu cefnogi. Mae hwn yn ganolbwynt allweddol i gam cynllunio busnes y broses

Pwyntiau Trafod

- Gyda golwg ar flaenoriaeth ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a'r gofyniad i eiddo ar rent fod yn effeithlon o ran ynni erbyn 2018, gofynnodd aelod am eglurder ynghylch y cyfnodau amser ar gyfer cymeradwyo gweithrediad

Cartrefi Cynnes. Gofynnodd aelod am eglurder ynghylch pa ran o'r A40 y cynigir ei huwchraddio yn ffordd ddeuol.

- Gofynnodd aelod pa saith gorsaf reilffordd oedd i gael eu gwella dan weithrediad Cyfnod 2 NCIP.
- Croesawodd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd y wybodaeth a gyflwynwyd yn y papur diweddaru, ond nododd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth am wariant yn y dyfodol.
- Holodd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd ai 30% oedd y targed yr ymrwymwyd iddo i ddiwedd 2015 a beth oedd perfformiad Cymru mewn perthynas â'r targed hwnnw. Gofynnodd y swyddog hefyd beth oedd y targed yr ymrwymwyd iddo ar gyfer diwedd 2016.
- Gofynnodd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd a allai'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ar y defnydd o'r gyllideb ar gyfer Cymorth Technegol.

Diweddariad Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

- Dywedodd Jane McMillan (JM) fod Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESGF) yn parhau i wneud cynnydd da. Roedd tri deg a thri o weithrediadau wedi cael eu cymeradwyo, ac roedd pump o weithrediadau eraill i fod i gael eu cymeradwyo dros yr ychydig ddyddiau nesaf.
- Yn nhermau'r dyraniadau ariannol, mae Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd eisoes o flaen y targed yr ymrwymwyd iddo a, chan fod cyflenwad iach iawn o brosiectau ar y ffordd, bydd y targed i gyflwyno 50% erbyn diwedd 2016 yn sicr o gael ei gyrraedd.
- Mae Trechu Tlodi drwy gyflogaeth, datblygu sgiliau, mynd i'r afael â phobl NEET, cynorthwyo pobl ifanc i mewn i gyflogaeth i gyd yn newidiadau strwythurol y mae'r ESF yn mynd i'r afael â hwy. Mae'r rhain yn Rhaglenni gwahanol iawn i raglenni ERDF o ran cyflawni, gyda'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd yn cael ei ddefnyddio fel sail i dargedu buddsoddiadau fesul sector mewn datblygu sgiliau, gyda phortffolio datblygedig o fuddsoddiadau mewn sgiliau wedi ei sefydlu.
- Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud gyda Blaenoriaeth Ieuenctid. Yn ychwanegol at brosiectau asgwrn cefn Llywodraeth Cymru mae amrywiaeth o brosiectau llywodraeth leol a rhanbarthol eraill yn datblygu'n dda.
- Mae blaenoriaeth trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy yn canolbwyntio ar bobl sy'n ddi-waith hirdymor a'r bobl sy'n segur yn economaidd. Wrth fonitro'r portffolio buddsoddiadau canfuwyd rhai bylchau yn y ddarpariaeth y mae

angen eu llenwi. Yng Ngorllewin Cymru mae yna fwlch o ran yr angen i fynd i'r afael â thangyflogi mewn gwaith. Yn Nwyrain Cymru, canfuwyd bwlch i gynorthwyo unigolion caeth i gyffuriau ac alcohol i mewn i waith.

- Fel gydag ERDF, nid oedd hawliadau ariannol wedi eu cyflwyno eto gan weithrediadau. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i hyn fod yn broblem i wariant y Rhaglen. O ran niferoedd y cyfranogwyr, mae Rhaglenni ESF yn perfformio'n dda a byddant yn gwneud mwy na chyrraedd targedau'r Gronfa Perfformiad.

Pwyntiau Trafod

- Holodd aelod a oedd cysylltiadau rhwng prosiect Cymru Iach ar Waith a chynllun Ffit i Weithio Llywodraeth y DU, a ble roedd y prosiect hwn yn cael ei gyflawni. Roedd yr aelod hwn hefyd yn falch fod cymorth yn cael ei ddarparu i fynd i'r afael â thangyflogi gan fod hon yn broblem gynyddol, er enghraifft, lle na all pobl gael yr oriau gwaith y mae arnynt eu hangen yn eu hardaloedd lleol, gyda gwaith rhan-amser a contractau dim oriau yn dod yn fwyfwy cyffredin a chyda nifer y contractau llawn amser yn prnhau.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw beth y gellid ei wneud, drwy gaffael, i leihau'r defnydd o contractau dim oriau.
- Tynnodd aelod sylw at y ffaith fod gweithrediad y Porth Ymgysylltu yn awr yn targedu mwy o gyfranogwyr dan anfantais nag o'r blaen.
- Roedd aelod yn cefnogi'r pwyslais a roddwyd ar drechu tlodi: mae ymyriadau lluosog yn bwysig yn y maes hwn.
- Gwnaeth swyddog y Comisiwn Ewropeaidd y sylw bod dros 30% o gronfeydd ESF wedi eu rhwymo, a theimlai y byddai'n ddefnyddiol pe bai adroddiadau cynnydd a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol yn cynnwys y cynnydd a wnaed ar y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Weithredol.
- Gofynnodd aelod faint o gyfranogwyr dan Flaenoriaeth Sgiliau'r ESF oedd wedi ennill cymwysterau Lefelau 3 a 4 mewn darparu gofal ac a ellid dadansoddi'r data hwn fesul ardal Awdurdod Lleol a'r trydydd sector.
- Gwnaeth aelod y sylw bod y mecanweithiau sydd wedi eu sefydlu i atal dyblygu yn y Rhaglenni ESF ac ERDF presennol yn dda a holai a oedd yna gapasiti i edrych am ddyblygu o'r fath o ran y gweithgareddau a gyllidir gan Horizon 2020 ac Interreg.
- Gofynnodd aelod a oedd yna dystiolaeth fod buddsoddiadau ESF mewn sgiliau yn alinio gyda gweithrediadau sy'n cael eu datblygu gyda chymorth ERDF.

- Gwnaeth aelod y sylw ei bod yn bwysig edrych ar y tymor hir. Yn ei brofiad ef mewn grwpiau eraill, lle mae llu o ymyriadau yn eu lle, y gall y rhain danseilio teimlad o strategaeth. Mae'n bwysig cael camau adferol yn eu lle sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymyriadau. Mae llawer o ffactorau wedi eu cynnwys yn hyn, beth yw'r ffordd orau i fwydo gwybodaeth yn ôl a gweledigaeth?
- Mewn perthynas â'r pwyntiau a wnaed ar dangyflogi ac uwchsgilio, gofynnodd aelod ble byddai'r hunangyflogedig yn ffitio i mewn. Mae yna grŵp ymhlith yr hunangyflogedig nad ydynt yn ennill yr isafswm cyflog ac sy'n gorfod bod yn hunangyflogedig. Mae hon yn broblem neilltuol i gymunedau gwledig, gan fod llai o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth lawn amser.

Ymatebion:

- Dywedodd JM fod y Gwasanaeth Allan o Waith yn targedu cyfranogwyr oedd yn ddibynnol ar gyffuriau a/neu alcohol, a bod hwn yn brosiect arbenigol. Bydd prosiect Cymru Iach ar Waith yn rhoi cymorth i bobl mewn gwaith sydd â chyflyrau iechyd tymor hir sy'n eu cyfyngu. Mae hwn yn brosiect Cymru gyfan a bydd yn cael ei ddarparu yn yr ardaloedd lle y canfuwyd angen.
- Mae gan gaffael moesegol swyddogaeth bwysig i'w chyflawni mewn lleihau'r defnydd o gontractau dim oriau.
- Dywedodd JM y bydd yr adroddiad nesaf a gyflwynir i'r Pwyllgor yn adrodd yn erbyn y dangosyddion yn y Rhaglen Weithredol. Ychwanegodd Peter Ryland (PR) ei bod yn bwysig, os yw adrodd i fod yn ystyrion, bod digon o ddata ar gael ar allbynnau. Ceir y data hwn ar y pwynt lle mae noddwyr yn cyflwyno eu hawliadau i WEFO.
- Dywedodd JM mai'r dull a fabwysiadwyd gan y Rhaglenni presennol fu dal i adolygu'r gweithgareddau oedd yn cael eu hariannu, am ei bod yn bwysig i'r Rhaglenni ychwanegu gwerth. Mae Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn cael eu rheoli yn WEFO ac mae deialog gyson rhwng swyddogion ynglŷn â'r gweithgareddau a gyllidir mewn perthynas â Rhaglenni ESF ac ERDF.
- Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod gweithgaredd yn mynd ymlaen ar lefel polisi i fapio gweithgaredd ar draws meysydd sgiliau, cyflogaeth a ieuencid. Ymgysylltwyd yn ddiweddar â'r Adran Gwaith, Pensiynau a Sgiliau ynghylch y Rhaglen Waith. Bydd cyfleoedd i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ar y gwaith hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Gwnaeth JM y sylw bod swyddogion yn gweithio ar fapio gweithgareddau ac ymgysylltiad. Yn arbennig, ceir cyfarfodydd rheolaidd gyda noddwyr prosiectau sy'n mynd i'r afael â gwaith i bobl ifanc a threchu tlodi, gan mai yn y meysydd hyn y mae'r potensial mwyaf i ymdrechion gael eu dyblygu.
- Dywedodd JM fod rhai synergeddau yn dod i'r amlwg mewn buddsoddiadau sgiliau, er mai'r prawf fyddai cyfleoedd clir i'r buddsoddiadau a wnaed o dan Flaenoriaeth 1 ERDF mewn canolfannau rhagoriaeth ategu buddsoddiadau ESF a wnaed mewn sgiliau lefel uwch. Mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn cynnwys ymyriadau lle mae aliniad o'r fath wedi digwydd.
- Gwnaeth JM y sylw bod y materion hyn yn ehangach na'r Cronfeydd Strwythurol. Mae dangosyddion yr ESF yn canolbwyntio ar y niferoedd mewn gwaith a'r heriau strwythurol yn y farchnad lafur. Mae'n bwysig asesu gwerth ychwanegol ESF a sut mae ymyriadau yn gweithio mewn ardaloedd. Mae'n bosibl bwydo i mewn i hyn drwy werthusiadau ac asesiadau meintiol ac i bartneriaid a llunwyr polisïau nodi'r pwyntiau ar gyfer dysgu, er mai mewn cyfnod cynnar yr ydym o ran y Rhaglenni.
- Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ar hyn o bryd yn edrych yn ofalus ar yr ystod o ymyriadau cyflogadwyedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, a ddylai adrodd erbyn yr hydref. Dylai fod o gymorth i ddatblygu asesiadau safonedig a chategoreiddiadau wrth nodi'r rhwystrau i unigolion sy'n ceisio cael gwaith cyflogedig. Mae'r gwaith hwn yn digwydd. Dywedodd JM fod y prosiect Sgiliau ar gyfer Twf yn canolbwyntio ar uwchsgilio y rheiny sydd mewn gwaith, gan gynnwys yr hunangyflogedig.

EITEM 5: Asesiad Offerynnau Ariannol ERDF: Cyflwyno'r Canfyddiadau Allweddol a'r Argymhellion

- Cyflwynodd Ken Cook (KC) yr eitem ac eglurodd, er bod Asesiadau Ex Ante ar gyfer Offerynnau Ariannol yn ofynion rheoliadol, eu bod hefyd yn ymarferion defnyddiol.
- Rhoddodd Neil Evans (NE) o Regeneris gyflwyniad ar yr Asesiad Ex Ante ar gyfer Cronfa Fusnes Cymru. Roedd yn rhaid i'r Asesiad Ex Ante ddilyn proses benodol a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Roedd y cam cyntaf yn golygu asesiad o'r farchnad. Er gwaethaf y ffaith fod yna lawer o lenyddiaeth am fethiant y farchnad, mae'n heriol iawn ceisio meintioli natur y bwlch ariannol y byddai'r Offeryn Ariannol yn ceisio ei lenwi. Fodd bynnag, mae yna werth degawd o brofiad yng Nghymru o fuddsoddi yn y rhan hon o'r farchnad, ac mae'r asesiad yn pwyntio at fwllch o ryw £24 miliwn i £32 miliwn y flwyddyn neu £120 miliwn i £160 miliwn dros bum mlynedd (heb gynnwys dyled ar gyfer busnesau micro).

- Daeth yr Asesiad Ex Ante i'r casgliad bod Cronfa Fusnes Cymru yn ffitio'n dda gyda Rhaglenni ERDF a'i bod yn gyson â mentrau bychain a chanolig allweddol eraill, cefnogaeth sector a mentrau ymchwil ac arloesi.
- Ystyrid bod lefel y cyllid oedd yn cael ei gynnig yn awr yn synhwyrol, ond y brif risg i sefydlu ymyriad newydd yw amseriad yr elw ar fuddsoddiad (cyllid etifeddol) sydd ei angen o gronfa JEREMIE 2007-2013.
- Mae cydfuddsoddiad ar lefel bargaen yn debygol o fod yn fwy heriol i ddyled nag i ecwiti.
- I gloi, dangosai'r asesiad fod Cronfa Fusnes Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth marchnad gadarn, wedi ei sylfaenu ar ystyriaeth lawn o'r gwersi o Offerynnau Ariannol tebyg ac yn gyffredinol gadarn a dichonadwy.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd aelod a oedd yna gynlluniau i gynnal arolwg ar ymgeiswyr y Gronfa, gan gynnwys y rhai aflwyddiannus.
- Gofynnodd aelod sut mae'r dull o ddatblygu'r Gronfa yng Nghymru wedi bod yn wahanol i'r dull a fabwysiadwyd yn Lloegr.
- Gofynnodd aelod beth oedd swyddogaeth y Pwyllgor mewn perthynas â Chronfa Fusnes Cymru a'i Hasesiad Ex Ante ac a oedd Offerynnau Ariannol yn cael eu hystyried gan feysydd eraill y Rhaglenni
- Holodd aelod arall yn benodol am y cynlluniau ar gyfer Offerynnau Ariannol yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020.
- Gofynnodd aelod a oedd yr Asesiad Ex Ante yn edrych ar egwyddorion targedu Cronfa Fusnes Cymru.
- Holodd swyddog o'r Comisiwn Ewropeaidd a oedd gwerth disgwylidig yr arian etifeddol o gronfa JEREMIE 2007-2013 yn rhy isel, yn enwedig o'i gymharu â'r hyn a ddisgwyd yn Lloegr. Gofynnodd y swyddog hefyd a oedd y gyfran o arian a ddyrannwyd i ecwiti yn rhy isel.

Ymatebion:

- Eglurodd Neil Evans (NE) fod Cyllid Cymru yn monitro profiadau ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus a bod y maes hwn yng ngwerthusiad JEREMIE yn cael ei archwilio. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol ond mae peth anfodlonrwydd ynghylch cyflymder ymateb. Mae

adborth parhaus yn bwysig. Ychwanegodd swyddog o Gyllid Cymru fod Cyllid Cymru wedi cael ei beirniadu ynghylch cyflymder ymateb o'r blaen a'i bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy weithredu dull llwybr cyflym ar gyfer benthyciadau micro gyda gweithdroad o ddau ddiwrnod ar fenthyciadau llai na £5,000. Mae Cyllid Cymru hefyd yn ehangu ei swyddogaeth ymchwil a gwybodaeth er mwyn casglu mwy o dystiolaeth a gwella cyflawniad y Gronfa'n barhaus.

- Dywedodd NE nad oes cynlluniau yn Lloegr i weithredu Cronfa Lloegr gyfan. Yn hytrach, bydd Partneriaethau Menter Lleol (LEPs) yn ffurfio cydweithrediadau daearyddol. Mae trafodaethau'n parhau i fynd ymlaen ynghylch hyn.
- Esboniodd NE fod yr Asesiad Ex Ante wedi edrych ar egwyddorion targedu ac wedi dod i'r casgliad mai dull cyffredinol gyda 'nod' i sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru oedd yr un cywir. Nid Cronfa Fusnes Cymru yw'r unig gronfa fusnes sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae yna gronfeydd eraill, gan gynnwys cronfeydd sector, a chronfeydd sy'n gallu buddsoddi ar lefelau uwch. Ychwanegodd swyddog o Gyllid Cymru fod yna ddisgwyliad y bydd elfen ecwiti Cronfa Fusnes Cymru yn alinio ag agenda arbenigo smart yng Nghymru.
- Dywedodd KC mai er gwybodaeth a thrafodaeth yr oedd yr Asesiad Ex Ante yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, nid i gael ei gymeradwyo.
- Dywedodd Tom Smithson (TS) fod Asesiadau Ex Ante eraill yn mynd ymlaen ar feysydd eraill yn y Rhaglenni. Nododd TT fod Regeneris wedi gwneud peth gwaith cychwynnol ar y posibilrwydd o Offerynnau Ariannol yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 -2020 ond bod hyn yn nyddiau cynnar datblygiad y Rhaglen. Edrychir ar y gwaith hwn eto yn awr ac mae Llywodraeth Cymru yn un o ddim ond tri Awdurdod Rheoli sydd wedi eu gwahodd i weithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ac FI Compass i dderbyn hyfforddiant ar Offerynnau Ariannol.
- Ychwanegodd swyddog o'r Comisiwn Ewropeaidd fod Asesiadau Ex Ante fel sail i ddefnyddio Offerynnau Ariannol yn EAFRD yn neilltuol o bwysig gan mai ychydig o brofiad sydd yna i ddysgu oddi wrtho. Mynegodd y swyddog beth pryder na châi Offeryn Ariannol posibl ei gyflwyno yng Nghymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 -2020 tan 2018. Dywedodd TT bod y dull hwn wedi cael ei fabwysiadu oherwydd y cymhlethdodau a'r ansicrwydd o gwmpas darparu Offerynnau Ariannol yn EAFRD. Ychwanegodd aelod nad Offerynnau Ariannol yw'r unig fecanwaith i gefnogi busnesau am nad rhwystrau ariannol yw rhai o'r rhwystrau ar ffordd buddsoddi a datblygu busnesau.

- Dywedodd swyddog o Cyllid Cymru mai amcangyfrif ceidwadol oedd gwerth rhagdybiedig arian etifeddol o JEREMIE 2007-2013, amcangyfrif oedd i gael ei ddefnyddio i ddibenion cynllunio. Mae Cyllid Cymru yn disgwyl y bydd y gwir werth yn uwch na hyn. Eglurodd y swyddog y caiff un rheolwr cronfa ei benodi fel y gellir sefydlu hawliau trosglwyddo arian rhwng y dyraniadau ar gyfer dyled ac ecwiti. Eglurodd KC y byddai cronfa ecwiti fwy o faint yn fwy o risg.
- Ychwanegodd NE fod gan Gronfa JEREMIE yng Ngogledd-orllewin Lloegr gronfa ecwiti fawr ond bod hyn wedi ei gwneud yn wannach yn wyneb yr argyfwng ariannol oherwydd nad oedd ar fusnesau eisiau buddsoddiad mewn ecwiti yn ystod yr argyfwng ariannol.

EITEM 7: Offerynnau Ariannol a Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

- Cyflwynodd TT bapur ar Offerynnau Ariannol ac EAFRD. Mae'r cwmpas ar gyfer Asesiad Ex Ante yr Offerynnau Ariannol wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae Cymru'n un o'r tri Awdurdod Rheoli yn Ewrop i dderbyn hyfforddiant wedi ei dargedu gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar y defnydd o Offerynnau Ariannol yn EAFRD. Mae yna bosibilrwydd y caiff Offerynnau Ariannol eu cyflwyno i mewn i'r Rhaglen newydd yn 2018.

Pwyntiau Trafod:

- Roedd swyddog y Comisiwn Ewropeaidd yn croesawu cynnwys y pwynt hwn ar agenda'r Pwyllgor. Mae defnyddio Offerynnau Ariannol yn flaenoriaeth i'r Comisiwn i'w gynorthwyo i wneud y defnydd gorau posibl o gronfeydd cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn bwysig i EAFRD am ddau reswm: does gan lawer o Aelod-wladwriaethau ddim profiad o ddefnyddio Offerynnau Ariannol, a phrofiadau cymysg gafodd y rheiny sydd wedi eu defnyddio. Nodwyd mai'r bwriad fyddai cyflwyno Offerynnau Ariannol yn 2018. Er mai proses sy'n esblygu yw hi, mae'n bwysig dal i adolygu'r cyfnod hwn o amser. Dylai'r hyfforddiant a dargedwyd fod o gymorth i fyrhau'r camau i beri bod yr Offerynnau Ariannol ar gael yn gynt.

Ymatebion:

- Dywedodd TT y bydd yr hyfforddiant wedi ei dargedu yn gymorth i edrych i mewn i'r dewisiadau, ac i ddylunio a thargedu'r cynnig yn ofalus. Adolygir y cyfnodau o amser yn gyson.

EITEM 8: Datblygiad Metro ERDF

- Amlinellodd Mark Berry (MB) gyd-destun strategol y Metro gan gynnwys y weledigaeth a'r cynllun trosfwaol. Mae hwn yn brosiect enfawr fydd yn rhoi

hwb i les economaidd y rhanbarth, a bydd yn gymorth i greu dinas-ranbarth cydlynol.

- Mae diffyg cyswllt rhwng ardaloedd poblog iawn yn Ne-ddwyrain Cymru a chanolfannau cludiant cyhoeddus, er enghraifft Llaneirwg, Pentref Eglwys, a'r ardal i'r Gogledd o Ferthyr Tudful. Mae rhwydwaith y rheilffordd hefyd yn cael ei chyfyngu gan gapasiti presennol y rheilffordd, sy'n cyfyngu ar y gwelliannau y gellir eu gwneud.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud i'r Metro ddigwydd, gyda'r Prif Weinidog yn datgan bod y Metro yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae yna gynlluniau i ddarparu gwasanaethau cyflymach ac amlach, ac integreiddio gwasanaethau trên a bws. Mae angen hefyd gallu ymestyn y rhwydwaith i gymunedau sydd ar hyn o bryd heb eu gwasanaethu gan ddarpariaeth cludiant cyhoeddus.
- Mae Cyfnod 1 prosiect y Metro ar hyn o bryd yn mynd rhagddo, sydd wedi defnyddio arian yr EARDF ac sy'n canolbwyntio'n bennaf ar lein Glyn Ebwy. Y bwriad yw darparu dau i bedwar gwasanaeth bob awr ar y lein hon, yn ogystal ag estyniad posibl i'r lein. Bydd cyfnod 2 y Metro yn canolbwyntio ar drawsnewidiad mawr a'r cynlluniau yn y dyfodol i ymestyn y rhwydwaith.
- Esboniodd Tony Meacham fod swyddogion ar hyn o bryd yn datblygu'r fanyleb, gyda'r bwriad o fynd allan i gaffael ar ddiwedd Mawrth. Bydd hyn yn sicrhau partner i weithredu a datblygu fydd yn ymgymryd â rhai o swyddogaethau presennol Network Rail. Mae'n debyg y ceir model consesiwn, gyda hyd y contract yn 10-15 mlynedd.
- Bydd y broses gaffael yn defnyddio proses ddeialog gystadleuol. Gofynnir i Dendrwyr gyflawni yn erbyn casgliad o allbynnau allweddol, ond hwy fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y caiff y rhain eu cyflawni.

Pwyntiau Trafod:

- Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau gyflwynydd am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

UNRHYW FATER ARALL

- Nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor y byddai Guy Flament (GF) yn bresennol ynddo.
- Eglurodd GF iddo ddechrau gweithio gydag Awdurdod Rheoli Cymru ddeng mlynedd yn ôl, a'i fod wedi mwynhau gweithio gyda swyddogion Cymreig mewn llawer o ffyrdd, gan gydnabod y parch mawr sydd iddynt. Gwahoddodd GF WEFO i fod yn uchelgeisiol i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r Cronfeydd Ewropeaidd, a chynyddu swyddogaeth y sector preifat yn y Rhaglenni. Dylai'r Pwyllgor barhau i weithredu fel cyfaill beirniadol gan gynorthwyo WEFO i gyrraedd ei thargedau.

- Roedd DOB yn cydnabod GF fel arbenigwr yn ei faes ac fel ffrind cywir i Gymru dros gyfnod maith. Dywedodd fod GF yn cael ei werthfawrogi'n fawr a'i barchu am broffesiynoldeb y cyngor a'r cymorth y mae wedi ei roi i Gymru dros flynyddoedd lawer a manteisiodd ar y cyfle i ddymuno pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020

ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLENNI

Trosolwg

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglenni ESF a Rhaglenni ERDF ac ESF Dwyrain Cymru. Ceir adroddiadau ar gronfeydd penodol yn Atodiadau 1 i 3. Mae'r holl ddata'n gywir ar 31/07/2016.

Y cyfraddau cynllunio a ddefnyddir yn yr adroddiad yw £1:€1.25 ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a £1:€1.18 ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae cyfeiriadau at gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni drwy'r ddogfen gyfan yn cyfeirio at y cyfarfod ym mis Chwefror 2016.

Y sefyllfa gyffredinol

- Mae 108 o weithrediadau gwerth £1,756m (gan gynnwys arian yr UE gwerth £815m), yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Cronfeydd Strwythurol a byddant yn cynorthwyo dros 40,000 o fusnesau ac yn rhoi cymorth hyffordiant/cyflogaeth i fwy na 281,000 o bobl.
- Mae Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cefnogi cyfanswm o 7,338 o gontractau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu 528,010 hectar ynghyd â 553 o gontractau organig newydd sy'n cwmpasu 68,440 hectar.

Cynnydd ariannol


Neilltuo cyllid

- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £968m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd, y mae £438 ohono yn arian yr UE (54% o ddyraniad y rhaglen).
- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £788m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd, y mae £377m ohono yn arian yr UE (66% o ddyraniad y rhaglen).
- O dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cyfanswm o £530m (55% o werth y rhaglen) wedi ei neilltuo (gan gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb), y mae £339m ohono yn arian yr UE.

Gwariant


- Mae tua £71m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, y mae £24m ohono yn arian yr UE.
- Mae tua £83m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, y mae £51m ohono yn arian yr UE.
- Mae ychydig dros £40m o wariant wedi'i gofnodi yn RDP2014-2020.

Siart 1: Cyfanswm Gwariant Rhaglenni a Neilltuwyd / a Wariwyd



Ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae Cyfanswm Gwariant y Rhaglen yn cynnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ynghyd â chyllid domestig Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol mae'n cynnwys ERDF neu ESF ynghyd ag arian cyfatebol.

Siart 2: Cronfeydd yr UE a Neilltuwyd / a Wariwyd (ERDF / ESF / EAFRD)



Data ar Allbynnau

Mae 'rhagolygon y prosiect' a geir yn yr adroddiadau hyn yn disgrifio cyfanswm y cyflawniadau yn erbyn dangosyddion y disgwylir eu cyflawni gan bob prosiect cymeradwy.

Bydd bwlch bob amser rhwng gwariant a chyhoeddi adroddiadau prosiectau yn erbyn dangosyddion. Hyd yma, dim ond ychydig o ddata perfformiad sydd wedi dod i law gan fod nifer gymharol fach o hawliadau wedi cael eu cyflwyno gan brosiectau i'r Awdurdodau Rheoli. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu camau 'symudiadau' lle y caiff gallu gweithredol prosiectau ei feithrin. Noda adroddiadau cynnydd gan fuddiolwyr fod y broses weithredu'n mynd rhagddi, gyda'r buddiannau cysylltiedig sy'n cronni i bobl a busnesau ledled Cymru; ond daw data perfformiad o'r hawliadau a gyflwynwyd, gan brosiectau, gyda dim ond ychydig sydd wedi rhoi gwybod ar y cam hwn yng ngylch y rhaglen. Bydd yr Awdurdodau Rheoli yn rhoi pwyslais cryf dros y misoedd sydd i ddod ar sicrhau y caiff hawliadau eu cyflwyno'n unol â'r amserlen a'u prosesu i'w gwneud yn bosibl i ddata perfformiad gael eu cofnodi'n gywir. Mae'r sefyllfa hon yn gyson â'r prosesau cyflawni ac adrodd yn ystod rhaglenni 2007-2013, pan gafwyd adroddiadau ar allbynnau o 2010 ymlaen (sy'n cyfateb i 2017).

Mae'n bwysig hefyd nodi'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddangosyddion sy'n gymwys i bob amcan, gan fod gan bob dangosydd bwysoliad gwahanol gan fod ei bwysigrwydd yn dibynnu ar yr amcan dan sylw. Wrth ddethol a phennu dangosyddion cymerwyd gofal i sicrhau nad yw dangosyddion yn sbarduno ymddygiadau croes ac mai'r rhesymeg dros ymyrryd yw prif sbardun pob gweithgarwch. Mae hyn yn gofyn am gydnabod yr heriau sy'n bodoli o ran pennu gwerthoedd targed ystyrlon; yn enwedig lle mae newid sylweddol mewn dull gweithredu ac nad oes gennym ddata hanesyddol i seilio disgwyliadau arnynt. Hefyd, dim ond rhan o'r stori y mae dangosyddion yn ei hamlygu (e.e. gallant gyfrif meintiau, ond ni allant o reidrwydd adlewyrchu ansawdd yr ymyriadau).

Atodiadau

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Adran 1: Rhaglenni ERDF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni ERDF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ynghyd â Grantiau'r UE y gellid eu neilltuo o bosibl os bwriedir bwrw ymlaen â Gweithrediadau ar y cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio

Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE: Cam Cymeradwy, Cam Cynllunio Busnes a Cham Cyn Cynllunio

Rhaglen / Echel Blaenoriaeth	Gweithrediadau			Ymrwymiad Grant UE			
	Cymeradwywyd	Cynllunio Busnes	Cynllunio o flaen llaw	Dyraniad*	Cymeradwywyd	Cynllunio Busnes	Cynllunio o flaen llaw
ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd							
Blaenoriaeth 1	13	5	0	239.5	160.2	39.2	-
Blaenoriaeth 2	6	1	1	166.4	114.6	1.6	2.0
Blaenoriaeth 3	3	6	2	136.7	16.6	70.1	2.0
Blaenoriaeth 4	3	8	3	401.0	74.1	109.4	106.3
Blaenoriaeth 5	4	3	0	19.3	2.0	17.0	-
Cyfanswm	29	23	6	962.8	367.5	237.3	110.3
ERDF Dwyrain Cymru							
Blaenoriaeth 1	6	2	1	71.3	43.5	17.0	-
Blaenoriaeth 2	6	1	0	31.9	26.1	0.5	-
Blaenoriaeth 3	0	1	0	17.9	-	5.1	-
Blaenoriaeth 4	0	2	1	38.3	-	3.6	26.7
Blaenoriaeth 5	3	3	0	3.3	0.2	3.1	-
Cyfanswm	15	9	2	162.6	69.8	29.3	26.7
Cyfanswm ERDF	44	32	8	1,125.5	437.3	266.6	137.0

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

* Dyraniad grant UE yn seiliedig ar £1:€1.25

Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 44 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo grant o £437 miliwn, sef 39% o werth y rhaglenni a chynnydd o £201 miliwn o grant ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Chwefror 2016. Yn ôl y disgwyl, mae rhannau o'r rhaglenni ERDF ar gam mwy datblygedig nag eraill o ran cymeradwyaethau a gweithrediadau ar y cam cynllunio busnes ond mae hyn yn nodweddiadol o'r ffordd y mae'r ERDF yn datblygu dros amser ond mae'r diddordeb cyffredinol ym meysydd y rhaglen y parhau i fod yn dda.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP1.1: Adnoddau Ymchwil	5	£95.8m	£68.8m	72%	3	£26.9m	£18.2m	68%
AP1.2: Masnacheiddio	8	£143.7m	£91.4m	64%	3	£44.4m	£25.3m	57%
Cyfanswm Blaenoriaeth 1	13	£239.5m	£160.2m	67%	6	£71.3m	£43.5m	61%

Flynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
Y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol	£26.3m	£15.0m		
Y Ffowndri Gyfrifiadurol	£26.0m	£17.1m		
ASTUTE 2020	£14.7m	£10.0m		
FLEXIS	£14.6m	£9.6m	£9.8m	£5.6m
CEMET	£6.4m	£4.2m		

Mae'r portffolio Ymchwil ac Arloesedd yn parhau i ddatblygu'n dda gyda thros 66% o'r adnoddau sydd ar gael wedi'u neilltuo. Bu'r ffocws hyd yma ar ddatblygu a chymeradwyo gweithrediadau strategol a/neu brif weithrediadau a fydd yn cyflawni elfennau allweddol y portffolio Ymchwil ac Arloesedd; y nod yw cefnogi newid sylweddol yn yr economi wybodaeth yng Nghymru. Ceir amrywiaeth dda o fuddsoddiadau o dan Amcanion Penodol (meithrin gallu ymchwil a masnacheiddio gwaith ymchwil a datblygu).

Gwneir buddsoddiadau o dan y flaenoriaeth hon hefyd yn unol ag egwyddorion 'arbenigo craff' lle y caiff buddsoddiadau eu targedu yn unol â strategaeth arbenigo craff Cymru (cyfuniad o *Gwyddoniaeth i Gymru ac Arloesedd Cymru*). Mae'r broses hon yn cynnwys cyngor arbenigol, lle y bo'n briodol, gan Gyngor Cyngorol Cymru ar Arloesi. Yn gyffredinol, ceir rhaniad da rhwng meysydd y pedair 'Her Fawr' sy'n gosod y cyd-destun cyffredinol ar gyfer ymagwedd Cymru tuag at Arbenigo Craff, gyda nifer o arbenigeddau'n cael eu nodi yn y meysydd hynny.

Mae'r portffolio hefyd yn gwneud nifer o fuddsoddiadau yn y sector ynni carbon isel a'r amgylchedd sy'n cefnogi targed yr UE gyfan o 20% o holl wariant yr UE ar weithgareddau sy'n cyfrannu tuag at leihau newid yn yr hinsawdd.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
	Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd	£165m	£41m	£65m	£28m
AP1.1 Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat	Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr	160	397	90	126
	Nifer y gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil	6	3	2	1
	Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyr	470	91	290	59
	Nifer yr ymchwilwyr yn gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil	200	83	110	61
AP1.2 Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau	Nifer y mentrau a gynorthwyr i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad	490	98	300	67
	Nifer y mentrau a gynorthwyr i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	725	275	440	117
	Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr	1,212	57	715	4
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	520	342	320	305
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	3,750	907	2,245	435
	Nifer y mentrau newydd a gynorthwyr	30	13	20	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu	€42.8m	€44.7m	€26.2m	€25.5m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	1,125	392	670	136
	Nifer y patentau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cynnyrch	519	162	315	75
	Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	n/a	48	n/a	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:				
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	956	-	515	-
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	956	-	515	-

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Ceir rhai amrywiannau o fewn y flaenoriaeth hon o gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried y dyraniad ariannol a neilltuwyd (h.y. ar sail pro rata); yn enwedig o ran yr amcan ynglŷn â masnacheiddio (AP1.2). Awgryma ymchwiliadau cynnar mai'r rheswm dros hyn yw cyfuniad o fuddiolwyr yn dehongli dangosyddion yn llymach na'r bwriad, buddiolwyr yn fwy gofalus o ystyried profiad blaenorol o roi rhagolygon rhy optimistaidd, ac effaith newid sylweddol o ran targedu.

Mae'r newid o ran targedu ar gyfer y Flaenoriaeth hon – o gymharu â rhaglenni blaenorol (a ddefnyddiwyd fel sail i bennu targedu rhaglenni) – yn enwedig yn effeithio ar yr amcan ynglŷn â masnacheiddio (AP1.2). Mae rhaglenni 2014-2020 yn ceisio targedu mwy o gwmnïau sy'n cynnwys 10 cyflogai neu fwy, a rhoi mwy o bwyslais ar y microfusnesau hynny sydd â photensial gwirioneddol i dyfu i'r maint hwnnw o leiaf. Gallai'r dull gweithredu hwn gael mwy o effaith economaidd, ond bydd yn golygu llai o ffocws ar nifer y busnesau a gefnogir. Mae'r dangosyddion hefyd yn adlewyrchu pwyslais ar fwy o deilwra i roi cymorth dwysach, gan ystyried systemau arloesi yn eu cyfanrwydd yn y busnesau gwahanol (gan gyfrif pob menter lle y caiff cynhyrchion newydd eu cyflwyno, er enghraifft) yn hytrach na nifer y datblygiadau arloesol (a all arwain at lai o bwyslais ar yr effaith ar drosiant / defnyddioldeb).

Mae darn penodol o waith ymchwil yn mynd rhagddo i roi llinellau sylfaen ar gyfer y gweithrediadau cymeradwy craidd yn y maes hwn ('gwerthusiad cychwynnol'). Dylai hyn helpu i asesu'r graddau y mae targedau allbwn arfaethedig o ganlyniad i ffactorau gwahanol (e.e. a yw buddiolwyr wedi eu tanamcangyfrif ac mae angen eu huwchraddio, neu a oes angen i dargedau'r rhaglen adlewyrchu realiti'r newid sylweddol o ran targedu yn well?). Dylai fod adroddiad yn yr hydref a gellir diweddarau'r adroddiad hwn yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

O ran yr amcan ynglŷn â gallu ymchwil (AP1.1) roedd targedau'r rhaglen yn seiliedig ar nifer gyfyngedig iawn o weithrediadau blaenorol; a bwriedir i'r targed ariannu ymchwil ymwneud â chyllid cystadleuol fel Horizon 2020. Mae'r lefel hon o gyllid yn hynod ansicr o ystyried ei natur gystadleuol a'r heriau cynyddol o ran sicrhau mynediad i sefydliadau'r DU.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP2.1: Mynediad i Gyllid	1	£54.9m	£50.8m	93%	1	£8.6m	£8.0m	93%
AP2.2: Busnesau newydd	1	£13.7m	£18.6m	136%	1	£3.3m	£6.2m	188%
AP2.3: Defnyddio TGCh a manteisio arni	1	£8.7m	£5.2m	60%	1	£1.3m	£1.7m	131%
AP2.4: Twf Cyflogaeth	2	£73.2m	£25.2m	34%	2	£16.1m	£7.8m	48%
AP2.5: Cyllid Cyfalaf Risg	1	£15.9m	£14.7m	93%	1	£2.6m	£2.4m	92%
Cyfanswm Blaenoriaeth 2	6	£166.4m	£114.6m	69%	6	£31.9m	£26.1m	82%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
Cronfa Fusnes Cymru	£156.3m	£65.6m	£55.4m	£10.4m

Cafodd portffolio integredig ei ddatblygu yn seiliedig ar y gweithrediadau sy'n rhan o 'Deulu Busnes Cymru' sy'n cwmpasu Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru a Cyllid Cymru. Mae Cronfa Fusnes Cymru, sy'n Offeryn Ariannol, wedi'i chymeradwyo bellach ac mae'n weithredol a chaiff lansiad ffurfiol ei gynnal ym mis Medi 2016. Bydd y Gronfa yn cefnogi BBaChau ledled dau ranbarth y rhaglen a bydd yn gallu buddsoddi hyd at £211 miliwn, y daw £76 miliwn o'r swm hwnnw o'r ERDF. Bydd y Gronfa yn cynnig cyllid dyled ac ecwiti.

Mae crynodiad o nifer fach o weithrediadau effaith fawr (12 o weithrediadau hyd yma yn gweithredu o fewn dau faes y rhaglen) yn achosi rhai risgiau oherwydd, er bod y gweithrediadau, yn strategol, yn bwriadu cynllunio effaith economaidd fawr ar y cyd, ni fyddai angen ond i un gweithrediad dangyflawni neu fod ar ei hôl hi a gallai perfformiad y Flaenoriaeth fod yn y fantol. Mae camau lliniaru ar waith ynghyd â chyfarfodydd adolygu rheolaidd a heriol, adolygiadau cyflawni annibynnol blynyddol o flwyddyn tri ymlaen, y bydd yr argymhellion sy'n deillio ohonynt yn sbarduno cymorth yn y dyfodol a chyflwyno digwyddiad blynyddol i randdeiliaid gyda'r holl fuddiolwyr a'u contractwyr trydydd parti ar gyfer gweithrediadau teulu Busnes Cymru gan gynnwys Rheolwr Cronfa Busnes Cymru ac oherwydd integreiddio cymorth busnes yn agos rhwng y Cronfeydd Strwythurol a'r hyn a gynnigir o dan Cyswllt Busnes bydd eraill sy'n gweithio yn y sector gwledig hefyd yn bresennol. Caiff y digwyddiad blynyddol cyntaf ei gynnal ar 16 Medi 2016 a'i gadeirio gan WEFO. Mae un neu ddau o weithrediadau bach, ond arbenigol, yn cael eu datblygu, y mae un ohonynt yn herio ffiniau ERDF am y tro cyntaf o ran cynnig grant ar sail ad-daladwy. Mae Cronfa Twf Busnesau Cymdeithasol CGGC ar gam datblygu WEFO a bydd hyn ar sail ad-dalu ond os bydd y fenter gymdeithasol yn cyflawni mwy na'r hyn a fwriadwyd yna efallai na fydd angen ad-dalu rhan o'r grant, neu'r grant cyfan. Felly y cymhelliant yw rhagori ar berfformiad h.y. creu mwy o swyddi a lleihau'r baich o ad-dalu'r grant. Mae'r gweithrediad arbenigol arall yn ystyried rhoi cymorth grant i BBaCh sy'n galluogi'r sector preifat i fuddsoddi ei hun – ac felly weithredu fel cynnig i lenwi bwlch hyfywedd. Byddai hyn ochr yn ochr â buddsoddiadau y bydd Cronfa Fusnes Cymru yn eu gwneud.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP2.1 Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu	Buddsoddi mewn mentrau	£91.6m	£126.9m	£25.9m	£45.7m
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	160	-	45	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	235	241	65	122
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€132.0m	€68.6m	€37.3m	€10.8m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	2,300	2,173	650	1,128
	Mentrau sy'n mabwysiadu:				
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	190	-	60	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	190	-	25	-
AP2.2 Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth	Nifer y mentrau newydd a gynorthwyr	5,150	6,000	2,200	4,000
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	275	-	120	-
	Unigolion sy'n cael cymorth	14,350	6,000	6,200	4,000
	Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd	7,300	-	3,100	-
	Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	375	-	445	-
	Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl	3,650	-	1,350	-
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	8,800	10,250	3,800	6,750
	Mentrau sy'n mabwysiadu:				
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	2,710	1,500	465	1,000
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	2,710	1,500	1,165	1,000

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP2.3 Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	1,480	1,480	400	400
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	3,450	3,823	900	1,094
AP2.4 Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	6,450	7,200	2,550	4,600
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	40	-	10	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	330	-	115	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	13,650	12,400	5,400	8,170
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Grantiau	€4.3m	-	€2.2m	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€6.6m	-	€3.4m	-
	Cynnydd mewn lefelau allforio	£167.1m	£130.0m	£65.9m	£85.0m
	Mentrau sy'n mabwysiadu:				
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	8,700	5,000	1,300	3,300
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	8,700	5,000	3,200	3,300
AP2.5 Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu	Buddsoddi mewn mentrau	£26.5m	£29.4m	£7.2m	£9.8m
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	90	34	25	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€23.8m	€19.9m	€14.1m	€3.3m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	490	188	145	95
	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	20	18	5	8
	Mentrau sy'n mabwysiadu:				
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	45	-	5	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	45	-	13	-

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Y disgwyl yw y rhagorir ar y rhan fwyaf o dargedau o dan yr amcanion gwahanol o fewn y flaenoriaeth hon; ond drwy ddefnyddio dyraniadau dangosol sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Er enghraifft, disgwylir y bydd angen llai o gyllid ar gyfer y dull targedu a ragwelir yn y rhaglenni, sef canolbwyntio ar fentrau sydd â'r potensial am dwf uchel, na'r hyn a ddyrannwyd ar ffurf ddangosol yn y rhaglenni: y disgwyl yw y rhagorir ar y targed allweddol ar gyfer yr amcan hwn ynglŷn â thwf BBaChau (SO2.4) er mwyn cynyddu cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gan ddefnyddio 52% o arian dangosol, ac yn Nwyrain Cymru gyda 37%. Mae hyn wedi'i gwneud yn bosibl i gymorth dwysach gael ei dargedu at y rhaglenni ar gyfer busnesau newydd, sy'n disgwyl cyfradd droi uwch a busnesau newydd sy'n anelu mwy at dwf na rhaglenni blaenorol.

Yn gyffredinol, y targedau allbwn na ragwelir eto y cânt eu cyflawni yw'r dangosyddion hynny sy'n fwy eilaidd eu natur ar gyfer pob amcan. Er enghraifft, nifer yr unigolion sy'n cael cymorth i ddechrau busnes newydd: er bod hyn yn is na'r disgwyl, mae'r targed allweddol cysylltiedig ynglŷn â busnesau newydd a gynorthwyr yn rhagori ar darged y rhaglen. Felly, mae hyn yn adlewyrchu bod disgwyl y bydd cymorth mwy effeithiol ac y caiff y cymorth hwnnw ei dargedu'n fwy gofalus. Er y bydd angen i ni fonitro cynnydd i asesu dilysrwydd hawliadau'r gweithrediadau hynny, ni fyddem am weld cymhelliant croes i'r fath raddau fel y caiff adnoddau eu hailgyfeirio'n unswydd i helpu mwy o bobl, hyd yn oed os na allant sefydlu busnesau hyfyw (h.y., cyflawni'r targed eilaidd, ond llai pwysig).

Felly nid oes unrhyw fylchau sylweddol amlwg yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd, ond bydd angen monitro gweithrediadau cymeradwy'n fanwl er mwyn sicrhau bod y nifer gyfyngedig o weithrediadau yn cyflawni yn ôl yr addewid.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP3.1: Ynni'r Môr	3	£80.3m	£16.6m	21%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.2: Ynni Cymunedol (AP3.1 Dwyrain Cymru)	0	£18.7m	£0.0m	0%	0	£3.6m	£0.0m	0%
AP3.3: Arbed Ynni (AP3.2 Dwyrain Cymru)	0	£37.6m	£0.0m	0%	0	£14.3m	£0.0m	0%
Cyfanswm Blaenoriaeth 3	3	£136.7m	£16.6m	12%	0	£17.9m	£0.0m	0%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
Ocean Wave Rower	£5.9m	£4.1m		

Mae'r Flaenoriaeth hon yn faes arloesol yn y rhaglenni ac er bod cynnydd yn fwy heriol na'r disgwyl, mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud; yn enwedig o ran gweithio gyda datblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio'r dyfroedd o amgylch Cymru ar gyfer eu dyfeisiau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw. Mae llai o gyfle ar gyfer gweithgarwch yn rhaglen Dwyrain Cymru gan nad yw cynhyrchu ynni'r môr yn weithgarwch cymwys. Fel y cyfryw, mae rhaglen Dwyrain Cymru yn dibynnu ar weithrediadau a fydd yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach a gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru sy'n bodoli eisoes, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd.

Cymeradwywyd tri gweithrediad i alluogi datblygwyr ynni'r môr i ddatblygu, defnyddio a phrofi eu dyfeisiau yn nyfroedd Cymru. Mae'n bosibl y caiff diddordeb yn y dyfodol ei rwystro gan unrhyw benderfyniad gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU ar Gontractau er Gwahaniaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Gallai newidiadau a gynigir olygu bod buddsoddi yn nhechnoleg ynni'r môr yn llai masnachol hyfyw, ac mae'r cynigion yn creu cryn ansicrwydd yn y sector. Yn dibynnu ar benderfyniad Llywodraeth y DU, efallai y bydd angen ailystyried yr elfen hon o'r rhaglen ERDF er mwyn adlewyrchu'r awydd masnachol i fuddsoddi. Yn y cyfamser mae WEFO yn parhau i ddatblygu cynigion gyda darpar ddatblygwyr. Dyfarnodd Ystad y Goron naw parth arddangos o amgylch y DU yn 2014, y mae dau ohonynt yng Nghymru; Morlais yn y gogledd ar gyfer datblygiad llanw a pharth De Sir Benfro ar gyfer datblygiad tonnau. Mae'r Parthau ar wahanol gamau yn eu datblygiad; mae angen i'r parth tonnau oddi ar arfordir Sir Benfro, sydd wedi'i reoli gan Wave Hub, gwblhau astudiaeth ddichonoldeb fanwl er mwyn mireinio cwmplas a maint y gweithrediad ond mae hyn bellach yn dibynnu ar newid ffin y Parth. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi nodi'n ddiweddar bod Parth Sir Benfro o fewn yr Ardal Berygl y mae'r Weinyddiaeth yn ei defnyddio ar gyfer ei Maes Tanio ac fel y cyfryw am resymau diogelwch dylai ffin y Parth gael ei newid. Mae cais ffurfiol gan Wave Hub wedi cael ei gyflwyno i Ystad y Goron i newid ffin y Parth ac mae safle amgen wedi'i argymhell. Oherwydd y materion diogelwch a godwyd mae Ystad y Goron yn

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

barod i ystyried newid ffin y Parth. Y gobaith yw y bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn diwedd y flwyddyn. Mae Parth Morlais yn y gogledd ar gam llawer mwy datblygedig ac mae'n paratoi cynllun busnes manwl. Mae'r gweithrediad hwn newydd fynd drwy adolygiad gateway annibynnol (y talwyd amdano gan Lywodraeth Cymru) ac mae'r adroddiad terfynol ar fin cael ei gyhoeddi. Caiff canfyddiadau adolygiad gateway eu hystyried a byddant yn pennu sut y caiff y Parth ei ddatblygu yn y dyfodol.

Mae datblygu cynlluniau ynni cymunedol ar raddfa fach sy'n ceisio arian grant ERDF yn her, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau cymorth gwladwriaethol a'r sgiliau sydd eu hangen ar y Gymuned i ddatblygu cynlluniau o'r fath a rheoli'r asesu yn llwyddiannus ar ôl iddo ddod yn weithredol. Fodd bynnag, mae dau gynllun o'r fath ar gam cynllunio busnes ac er eu bod yn cael eu harwain gan yr Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd, caiff yr asedau eu trosglwyddo i'r Cymunedau er mwyn iddynt eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw ar ôl cael eu hadeiladu. Mae WEFO gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn ystyried cynlluniau eraill a'r posibilrwydd y gallant wneud cais am gymorth ERDF.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae gwaith manwl wedi'i wneud ar y cyd â Llywodraeth Cymru i gwmpasu a diffinio effeithlonrwydd ynni mewn cynllun tai, gan adeiladu ar y profiad o gyflawni Arbed yn ystod 2007-2013. Mae cynnydd yn cael ei wneud a rhagwelir y caiff y prif weithrediad hwn ei gymeradwyo'n fuan.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP3.1 Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol	Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy	20	-	n/a	n/a
	Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni	2	-	n/a	n/a
	Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd	8	2	n/a	n/a
	Cynlluniau ynni cymunedol	37	-	3	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	150	-	70	-
AP3.2 Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	75	-	35	-
	Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	4	1	3	-
(AP3.1 Dwyrain Cymru)	Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy	n/a	n/a	8	-
	Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni	n/a	n/a	1	-
	Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd	n/a	n/a	3	-
AP3.3 Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tldi tanwydd	Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni	5,500	-	4,200	-
	Amcangyfrif o'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr	10	-	5	-

(AP3.2 Dwyrain Cymru)

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan dod i unrhyw farn bendant ar gyflawni allbynnau. Gan ystyried y gweithrediadau hyn sy'n cael eu datblygu, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynglŷn â'r allbynnau (er gwaethaf y risgiau a nodwyd yn y diweddariad uchod) ac mae'n ymddangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o dan yr allbynnau, hyd yn oed ar ôl ystyried natur arloesol y Flaenoriaeth.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP4.1: Ffyrdd	0	£85.1m	£0.0m	0%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP4.2: Trafnidiaeth Gyhoeddus (AP4.1 Dwyrain Cymru)	1	£137.7m	£16.4m	12%	0	£28.9m	£0.0m	0%
AP4.3: TGCh (AP4.2 Dwyrain Cymru)	0	£44.6m	£0.0m	0%	0	£9.4m	£0.0m	0%
AP4.4: Safleoedd Strategol	2	£133.7m	£57.7m	43%	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 4	3	£401.0m	£74.1m	18%	0	£38.3m	£0.0m	0%

Flynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
Adeiladu ar gyfer y Dyfodol	£134.8m	£30.0m		
Cyrchfannau Denu Twristiaeth	£84.8m	£27.7m		

Buddsoddi mewn cysylltedd a seilwaith galluogi yw'r ddau ffactor pwysicaf i sicrhau proses o weddnewid. Mae seilwaith yn tueddu i fod yn un o'r elfennau mwy llafurus i'w datblygu a'i chymeradwyo ond eto i gyd mae 18% o gyllid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi'i gymeradwyo. Fel Blaenoriaeth 3 mae gweithgarwch cymwys cyfyngedig i'w cefnogi o dan Flaenoriaeth 4 o raglen Dwyrain Cymru (sy'n canolbwyntio ar Fand Eang a'r Mentro yn gyfan gwbl).

Ceir nifer o weithrediadau sydd ar gam terfynol eu datblygiad gan gynnwys gweithrediadau Band Cyflym Iawn ar gyfer dau ranbarth y rhaglen, Hwb Trafnidiaeth Castell-nedd, Safleoedd Cyflogaeth Strategol a'r A40 o Landdewi Felffre i Benblewin. Disgwylir cymeradwyaethau yn ystod y mis nesaf gyda chynnydd da wedi'i wneud ar y gweithrediadau eraill ar gam cynllunio busnes a disgwylir cymeradwyaethau yn yr hydref.

Mae'n rhaid i weithgareddau penodol o dan Flaenoriaeth Cysylltedd ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gael eu blaenoriaethu'n rhanbarthol. Aeth y gweithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth cymeradwy drwy'r broses flaenoriaethu hon ac mae nifer o brosiectau unigol a fydd yn rhan o'r prif weithrediad ar y camau terfynol yn eu datblygiad a disgwylir cymeradwyaethau yn fuan. Mae Adeiladu ar gyfer y Dyfodol hefyd wedi cael cynnig grant, sy'n aros am gytundeb ond unwaith eto mae'r prosiectau a fydd yn rhan o Adeiladu ar gyfer y Dyfodol wedi'u nodi drwy broses flaenoriaethu ranbarthol ond bydd angen penderfynu arnynt yn derfynol er mwyn sicrhau y cânt eu cyflawni. Mae Safleoedd hefyd wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer y prif weithrediad a'r rhai a fydd yn dod yn uniongyrchol o ddarparwyr lleol megis Awdurdodau Lleol. Rhagwelir y bydd llenwyr 'bwllch' y Safleoedd rhanbarthol yn cael eu cyflwyno i WEFO yn fuan iawn.

Mewn perthynas â Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae WEFO wedi cymeradwyo'r cyntaf o ddau weithrediad sy'n rhan o Gam 1 y Metro. Cymeradwywyd Cam 2 y Cynllun Gwella Gorsafoedd Cenedlaethol a mwy (NSIP+) ym mis Ionawr

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

2016 sy'n cynnwys gwelliannau i bum gorsaf ledled ardal Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r Prosiect Gwella Amllder ar Linell Cwm Ebwy, sydd hefyd yn rhan o Gam 1 y Metro ar gam Cynllunio Busnes a rhagwelir y bydd cyfanswm buddsoddiad o £36 miliwn (ERDF £23miliwn); a disgwylir cymeradwyaeth ar ddechrau'r hydref.

Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwerthuso opsiynau Cam 2 y Metro a fydd yn ceisio cymorth o dan ERDF. Bydd Cam 2 y Metro yn brosiect mawr, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno proses asesu newydd ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn cynnwys ymgysylltu ag arbenigwyr JASPERS (yn Saesneg **Joint Assistance to Support Projects in European Regions**). Anogir Aelod-wladwriaethau i ymgysylltu â'r JASPERS mor fuan â phosibl wrth ddatblygu prosiectau mawr ac i'r perwyl hwn cynhaliwyd cyfarfodydd adeiladol rhwng WEFO, Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac arbenigwr JASPERS ar 21 Ionawr 2016 ac unwaith eto ar 23 Mai 2016. Bu'r cyfarfodydd yn gyfle i helpu i ddiffinio nifer o feysydd allweddol sydd eu hangen i gyflwyno hysbysiad prosiect mawr i'r Comisiwn Ewropeaidd a'u deall yn well. Bu'r rhain yn cwmpasu'n fanwl drosolwg o'r prosiect, arfarnu opsiynau, cwmpas cais prosiect mawr, dadansoddiad ariannol a'r broses gaffael.

Bydd JASPERS yn gweithredu mewn rôl ymgynghori drwy gydol y broses o ddatblygu prosiect mawr Cam 2 y Metro ac mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng WEFO a JASPERS wedi'i lunio ac wedi'i lofnodi. Mae WEFO o'r farn y bydd ymgysylltu â JASPERS mewn rôl ymgynghori drwy gydol y broses o ddatblygu prosiect mawr yn debygol o sicrhau arfarniad cyffredinol cyflymach o'r ddogfennaeth prosiect mawr a sicrhau canlyniad IQR cadarnhaol.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP4.1 Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu)	Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	n/a	n/a
	Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu	10	-	n/a	n/a
AP4.2 Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol (AP4.1 Dwyrain Cymru)	Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella	2,500,000	-	420,000	-
	Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella	25	5	5	-
	Cyfanswm hyd rheilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	n/a	n/a
	Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	3	-
	Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus	400,000,000	-	67,200,000	-
	Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	5	-	n/a	n/a
	Lleihad mewn allyriadau cyfatebol ag CO2	10,700	-	1,800	-
	Cyfanswm hyd llinellau tram a metro newydd neu well	n/a	n/a	5	-

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP4.3 Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps	Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd	28,000	-	28,000	-
	Nifer y Mentrau a gynorthwyir i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch	250	-	25	-
	Poblogaeth ychwanegol sy'n derbyn band eang cyflym iawn (>100Mbps)	n/a	-	n/a	-
(AP4.2 Dwyrain Cymru)					
AP4.4 Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol	Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer	1,770	-	n/a	n/a
	Tir wedi'i ddatblygu	50	-	n/a	n/a
	Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd	56,430	-	n/a	n/a
	Nifer y busnesau bach a chanolig y crëwyd lle ar eu cyfer	235	-	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Oherwydd lefel y swm a neilltuwyd mae'n rhy gynnar i lunio unrhyw farn bendant ar gyflawni allbynnau; ond o'r hyn a gymeradwywyd a'r hyn sydd ar gam cynllunio busnes a chyn cynllunio, ymddengys fod y broses o gyflawni allbynnau a thargedau ar y trywydd iawn.

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
Cyfanswm Blaenoriaeth 5	4	£19.3m	£2.0m	10%	3	£3.3m	£0.2m	6%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ERDF
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Gogledd Cymru	£0.46m	£0.35m	£0.09m	£0.05m
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru	£0.39m	£0.29m	£0.08m	£0.04m
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-orllewin Cymru	£0.63m	£0.47m		

Mae pob un o'r gweithrediadau Cymorth Technegol wedi'i gymeradwyo neu ar y cam cynllunio busnes olaf. Disgwylir neilltuo'n llawn yn fuan iawn. Cyflwynir papur ar wahân ar Gymorth Technegol er mwyn i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni ei nodi.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Adran 1: Rhaglenni ESF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan y Rhaglenni ESF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a neilltuwyd a'r symiau ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ochr yn ochr â Grant posibl yr UE a neilltuwyd os bydd Gweithrediadau ar y Cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio yn mynd rhagddynt.

Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE: Cam Cymeradwy, Cam Cynllunio Busnes a Cham Cyn Cynllunio

Rhaglen / Echel Blaenoriaeth	Gweithrediadau			Ymrwymiad Grant UE			
	Cymeradwywyd	Cynllunio Busnes	Cynllunio o flaen llaw	Dyraniad*	Cymeradwywyd	Cynllunio Busnes	Cynllunio o flaen llaw
ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd							
Blaenoriaeth 1	9	5	0	156.8	64.0	8.2	-
Blaenoriaeth 2	16	5	6	276.5	150.4	9.7	-
Blaenoriaeth 3	11	10	3	195.8	96.3	45.8	-
Blaenoriaeth 4	4	1	1	12.8	6.7	-	0.1
Cyfanswm	40	21	10	641.9	317.4	63.7	0.1
ESF Dwyrain Cymru							
Blaenoriaeth 1	4	4	1	35.0	10.0	1.0	-
Blaenoriaeth 2	10	5	5	76.4	24.3	14.4	-
Blaenoriaeth 3	7	9	1	48.0	24.5	7.5	-
Blaenoriaeth 4	3	1	1	3.3	1.0	-	0.0
Cyfanswm	24	19	8	162.6	59.9	22.9	0.0
Cyfanswm ESF	64	40	18	804.5	377.3	86.6	0.2

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

* Dyraniad grant UE yn seiliedig ar £1:€1.25

Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r Rhaglenni ESF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 64 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo yn y ddwy Raglen gan neilltuo £377m yn gyffredinol, sef £130.6m ychwanegol o gyllid ESF ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni. Mae pob maes Blaenoriaeth yn datblygu'n dda gyda phortffolio cytbwys o weithrediadau yn rhychwantu'r holl Feysydd Blaenoriaeth ac Amcanion Penodol wedi'i greu'n bennaf ar sail nifer o brif brosiectau i'r rhaglen gyfan, sy'n gallu cyflawni o ran pob un o ddangosyddion y rhaglen. Gallai gweithrediadau sy'n cael eu datblygu arwain at neilltuo £86m arall ac maent yn cynnig gweithgarwch arbenigol wedi'i deilwra i ategu'r ddarpariaeth a gynigir neu'r grŵp cleient a dargedir a llenwi bylchau.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP1.1: Helpu pobl i mewn i waith	1	£36.9m	£12.4m	34%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP1.2: Cynhwysiant ac Ymgysylltu mewn LM (AP1.1 Dwyrain Cymru)	7	£96.2m	£48.3m	50%	4	£35.0m	£10.0m	29%
AP1.3: Helpu pobl i aros mewn gwaith	1	£23.6m	£3.3m	14%	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 1	9	£156.8m	£64.0m	41%	4	£35.0m	£10.0m	29%

Flynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
Gweithfyrdd II	£9.1m	£7.5m		
Sova – Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth – ACE	£1.2m	£1.0m		

Cymeradwywyd £10.8m arall yn y ddwy raglen ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Chwefror sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 41% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 29% yn Nwyrain Cymru. Mae pob gweithrediad yn mynd i'r afael â rhwystrau penodol i fod yn rhan o'r farchnad lafur, a pharhau i gymryd rhan ynddi. Mae'r ffordd y dylunnir ymyriadau unigol wedi'i hategu gan Wybodaeth am y Farchnad Lafur a'r wybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd allweddol a roddir gan y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd a Chynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol. Mae'r rhaglen yn adeiladu ar lwyddiannau'r cylch blaenorol drwy barhau i ganolbwyntio ar gyflogaeth fel y prif amcan a hyd yn oed yn fwy ar y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth.

Mae *Amcan Penodol 1: Cynyddu Cyflogadwyedd y Rhai sydd Agosaf at y Farchnad Lafur ac sy'n wynebu'r Risg Fwyaf o Dlodi* yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn canolbwyntio ar brif weithrediad rhaglen gymeradwy i Gymru gyfan, **ReAct**, sy'n cefnogi unigolion y mae eu swyddi wedi cael eu dileu. Bydd yn fwy priodol mynd i'r afael â datblygu cymorth i unigolion di-waith yn y byrdymor â sgiliau isel os o gwbl, sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio neu anabledau drwy weithgarwch arbenigol ar raddfa lai.

Mae *Amcan Penodol 2 yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac Amcan Penodol 1 yn rhaglen Dwyrain Cymru: Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd Anweithgar ac sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd*, wedi cael ei ddatblygu ar sail portffolio cymysg o weithrediadau â ffocws daearyddol a ffocws â grŵp carfan, gyda gweithrediadau cenedlaethol i Gymru gyfan megis mentrau **Cymunedau am Waith** cymeradwy Llywodraeth Cymru, gweithrediadau **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a Cymru iach ar Waith**, a gweithrediadau **Cynhwysiant**

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Gweithredol a arweinir gan CGGC. Mae'r prif weithrediadau hyn wedi'u hategu gan nifer o weithrediadau rhanbarthol a arweinir gan awdurdodau lleol, megis **Pontydd i Waith** a **Gweithffyrdd+**, yn rhoi cymorth ledled de a gorllewin Cymru. Mae gweithrediad rhanbarthol yn y gogledd, **OPUS**, wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r cynigion hyn ochr yn ochr â gweithrediadau arbenigol sy'n rhoi cymorth wedi'i dargedu'n fanwl i grwpiau demograffig neu garfan penodol, gan gynnwys cynigion i gefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol sy'n ymwneud ag ethnigrwydd (Gweithrediad SOVA ACE) neu anabledd neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio (**Cymru Iach ar Waith – Gwasanaeth Allan o Waith**).

Mae WEFO yn ymgysylltu â'r Timau Rhanbarthol a'r Awdurdodau Lleol, ymhlith sefydliadau eraill, yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru er mwyn datblygu gweithrediadau cydweithredol i helpu i fynd i'r afael â lefel lai o ddiddordeb yn y rhan hon o'r rhaglen.

Mae *Amcan Penodol 3: Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith* yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig, yn canolbwyntio ar gynnig ar gyfer prif weithrediad **Cymru Iach ar Waith** Llywodraeth Cymru i Gymru gyfan sy'n cefnogi unigolion sy'n wynebu risg o roi'r gorau i weithio oherwydd cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio. Mae WEFO hefyd yn annog cynigion ar gyfer rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi'u 'tangyflogi' oherwydd cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio. Nid oes unrhyw weithrediadau wedi'u cymeradwyo hyd yma.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Tabl 1: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP1.1 Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi	Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	5,999	-	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt	12,001	7,786	n/a	n/a
	Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael	33%	0%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael	50%	0%	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sydd mewn cyflogaeth wrth adael	55%	50%	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sy'n ennill cymhwyster wrth adael	70%	72%	n/a	n/a

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP1.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (AP1.1 Dwyrain Cymru)	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	36,000	36,870	12,700	12,372
	Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	10,800	13,830	3,800	4,626
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael	20%	17%	20%	16%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ymwneud â chwilio am swydd wrth adael	25%	13%	25%	12%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael	50%	28%	50%	24%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli	54%	19%	54%	18%
	Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael	25%	16%	25%	13%
	Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael	50%	27%	50%	19%
	Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli	54%	25%	53%	20%

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP1.3 Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	4,000	4,232	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd â rhwystrau i gyflogaeth lawn	4,000	-	n/a	n/a
	Nifer y busnesau micro bach a chanolig a gynorthwyr	2,000	-	n/a	n/a
	Rhaglenni iechyd yn y gweithle	300	130	n/a	n/a
	Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%	0%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb	50%	19%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael	50%	31%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael fel contract parhaol ag oriau uwch	40%	0%	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Fel arfer, mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn rhagori ar dargedau'r rhaglen o gymharu â chyfran y cyllid a ddyrennir. Er enghraifft, disgwylir i 65% o'r targed ar gyfer unigolion y mae eu swyddi wedi cael eu dileu (AP1.1 o dan raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) gael ei gyflawni, ar ôl neilltuo dim ond 34% o'r cyllid sydd ar gael.

Mae rhagori ar y targed o ran cyfranogwyr hyd yma wedi'i wrthbwysu mewn rhai amcanion (megis y rhai sy'n canolbwyntio ar y rhai anweithgar economaidd a'r di-waith hirdymor) gan *gyfran* is o gyfranogwyr y disgwylir iddynt gyflawni canlyniadau (megis cyflogaeth, cymwysterau neu chwilio am swydd yn weithredol); o leiaf o gymharu â'r disgwyliadau yn nogfennau'r rhaglen. Efallai fod y duedd hon yn adlewyrchu'r ffaith bod angen ymyriadau lluosog ar yr unigolion hyn i'w symud yn agosach at y farchnad lafur, ac y gallai fod yn arwydd calonogol o weithrediadau sy'n targedu'r rhai sy'n anos eu cyrraedd (yn hytrach na'r rhai sy'n agosach at y farchnad lafur). Dylai rhagori ar y targed o ran cyfranogwyr hefyd helpu i sicrhau bod niferoedd absoliwt canlyniadau yn bodloni'r hyn a ddisgwylir ar gyfer y rhaglen.

Gellid gwneud sylwadau tebyg am amcan rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n targedu tangyflogaeth a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio; gan nodi sut bynnag mai dim ond 14% sydd wedi'u ddyrannu hyd yma.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP2.1: Sgiliau Sylfaenol	5	£133.3m	£48.0m	36%	3	£50.0m	£8.3m	17%
AP2.2: Hyblygrwydd a Chynnydd	8	£83.2m	£61.6m	74%	6	£22.5m	£14.2m	63%
AP2.3: Ymchwil ac Arloesi	2	£42.8m	£34.6m	81%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP2.4: Cydraddoldeb Rhywiol (AP2.3 Dwyrain Cymru)	1	£17.1m	£6.3m	37%	1	£3.9m	£1.8m	45%
Cyfanswm Blaenoriaeth 2	16	£276.5m	£150.4m	54%	10	£76.4m	£24.3m	32%

Flynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogaion AP1	£6.3m	£4.6m	£3.4m	£1.7m
Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogaion AP2	£4.3m	£3.1m	£2.2m	£1.0m
Uwchsgilio yn y Gwaith AP1	£4.1m	£2.9m	£3.9m	£1.9m
Uwchsgilio yn y Gwaith AP2	£5.2m	£3.3m	£5.7m	£2.8m
Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 AP1	£8.0m	£5.6m		
Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 AP2	£8.9m	£6.2m		
KESS II	£36.0m	£25.9m		
Academi Fusnes Gogledd Cymru (NWBA)	£2.7m	£2.0m	£1.7m	£0.8m

Cymeradwywyd £63.6m arall yn y ddwy raglen ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Chwefror sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 54% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 32% yn Dwyrain Cymru. Gan adeiladu ar gyflawniadau rhaglen 2007-2013, rhoddir ffocws penodol yn y portffolio sy'n datblygu ar ddarparu'r sgiliau technegol ac arbenigol hanfodol sydd eu hangen i greu gweithlu ystwyth ac ymatebol sy'n barod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r potensial o ran twf a gynigir gan economi wybodaeth fodern. Er bod sgiliau sylfaenol a hanfodol yn sylfaen cyffredin, ac angenrheidiol, i'r gweithlu cyfan, mae'r wybodaeth am gyfleoedd twf allweddol a'r sectorau sy'n datblygu a'r sectorau â blaenoriaeth a nodwyd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, ynghyd â'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn adnoddau allweddol i arwain y gwaith o dargedu ymyriadau sgiliau a'u ffocws, yn enwedig y rhai sy'n dysgu sgiliau ar lefel ganolraddol ac uwch.

Yn Amcanion Penodol 1 a 2 yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhaglen Dwyrain Cymru, y datblygiad allweddol ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni fu cymeradwyo cyfres o weithrediadau rhanbarthol a arweinir gan y sector AB. Bydd y

Atodiad 2: Diweddariad ESF

gweithrediadau hyn yn cynnig hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy sy'n berthnasol i anghenion gweithwyr yn ardaloedd blaenoriaeth y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ac fe'u gelwir yn **Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2** yn y de-orllewin a Cheredigion, **Uwchsgilio yn y Gwaith** yn y de-ddwyrain a Phowys a **Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion** yn y gogledd. Mae cymeradwyaethau eraill yn cynnwys gweithrediad **Arwain Twf Busnes (Dwyrain Cymru)** a arweinir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd a fydd yn darparu rhaglen arweinyddiaeth sy'n ategu'r gweithrediad cyfatebol yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a arweinir gan Brifysgol Abertawe ac a gymeradwywyd cyn cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

Mae'r broses o gymeradwyo prosiectau newydd wedi parhau ers canlyniad refferendwm yr UE a chafodd gweithrediadau **Academi Fusnes Gogledd Cymru** eu cymeradwyo'n ddiweddar o dan y ddwy raglen, a fydd yn canolbwyntio ar hyfforddiant rheoli ac academi dalent.

Yn Amcan Penodol 3 yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: cymeradwywyd gweithrediad Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Wybodaeth 2 (KESS2) Prifysgol Bangor a fydd yn helpu meddygon a graddedigion meistr ymchwil i astudio ym meysydd heriau mawr economi ddigidol, gwyddorau bywyd ac iechyd, ac ynni a'r amgylchedd. Mae'r gweithrediad hwn yn ategu'r Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu a gymeradwywyd yn gynt o dan arweiniad Prifysgol Abertawe sy'n canolbwyntio ar ddeunyddiau a pheirianeg uwch.

Mae buddiolwyr sy'n awyddus i roi hyfforddiant i'r gweithlu cyflogedig yn ymateb yn gadarnhaol i gyfeiriad polisi newydd cyd-fuddsoddi gan gyflogwyr a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei annog gan y Rhaglenni Gweithredol. Mae arian cyfatebol preifat o gyfraniadau arian parod cyflogwyr yn rhan annatod o'r gweithrediadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo.

Mae WEFO wedi cynnull nifer o gyfarfodydd rhanbarthol â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn hwyluso'r dasg o ddatblygu'r broses o ddarparu hyfforddiant rhanbarthol cydweithredol, gan gynnwys cyfarfod diweddar i ddatblygu cysylltiadau rhwng gweithrediadau sy'n cynnig hyfforddiant arwain a rheoli.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP2.1 Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion	14,029	3,458	7,799	1,651
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod	12,771	3,423	7,101	1,843
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion	23,870	12,911	13,296	8,530
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod	21,730	15,034	12,104	10,237
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Dynion	72%	75%	72%	76%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod	72%	76%	72%	76%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion	72%	80%	72%	81%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod	72%	80%	72%	81%

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP2.2 Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion	16,070	11,298	6,438	8,272
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod	14,630	13,100	5,862	9,705
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion	10,731	7,227	4,292	4,773
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod	9,769	7,368	3,908	4,824
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion	60%	79%	60%	80%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod	60%	79%	60%	80%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Dynion	60%	80%	60%	80%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Menywod	60%	80%	60%	80%

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP2.3 Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes	Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Dynion	780	429	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Menywod	720	365	n/a	n/a
	Nifer y Mentrau sy'n cydweithio â darparwyr dysgu	750	542	n/a	n/a
	Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Dynion	63%	83%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Menywod	63%	79%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Dynion	52%	0%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Menywod	52%	0%	n/a	n/a
AP2.4 Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (AP2.3 Dwyrain Cymru)	Nifer y mentrau micro bach a chanolig a gynorthwyir (gan gynnwys mentrau cydweithredol, mentrau yr economi gymdeithasol)	800	410	300	90
	Cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig	4,400	1,707	1,500	500
	Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster wrth adael	75%	80%	73%	80%
	Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%	80%	50%	80%
	Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad wrth adael	40%	40%	40%	40%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Yn gyffredinol mae'r sefyllfa o ran rhagolygon dangosyddion ar gyfer y flaenoriaeth hon yn galonogol iawn. Lle ceir bylchau mae cyllid ar gael o hyd i fynd i'r afael â hwy. Mae llawer o dargedau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer y flaenoriaeth hon yn gymharol agos at dargedau yn y rhaglen; er bod hyn yn galonogol bydd angen monitro agos hefyd er mwyn atal llithriant.

Cynyddu lefelau sgiliau'r rhai sydd â sgiliau isel os o gwbl (AP2.1): Mae'r rhagolygon yn uchel ledled Cymru, o ystyried y swm cymharol isel a neilltuwyd hyd yma, gyda bwlch yn dod i'r amlwg o ran y cyfranogwyr hynny heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Bydd hon yn ardal i ganolbwyntio arni yn y dyfodol, ond nid yw'n achos pryder ar hyn o bryd o ystyried y cyllid sylweddol sydd ar gael o hyd.

Lefelau sgiliau canolraddol neu uwch (AP2.2): Yn Nwyrain Cymru rhagorir ar bob targed, er mai dim ond 63% o'r cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu; mae hyn o bosibl yn adlewyrchu demograffeg y rhanbarth. O ran Gorllewin Cymru a'r Cymoedd mae'r rhagolygon yn unol yn fras â chyfrif targedau pro rata yn seiliedig ar y swm a neilltuwyd hyd yma; er bod y cyfranogwyr yn cynnwys mwy o fenywod na dynion. Yr hyn sy'n galonogol yw cyfran y cyfranogwyr y disgwylir iddynt gael canlyniadau sy'n rhagori ar dargedau'r rhaglen, a ddylai roi hwb i'r canlyniadau allweddol hynny.

Gweithgarwch Ymchwil ac Arloesedd (AP2.3 yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn is na thargedau'r rhaglen y gellid bod wedi'i ddisgwyl ar sail pro rata yn erbyn y swm ariannol a neilltuwyd. Efallai fod hyn yn adlewyrchu natur fwy arloesol yr amcan hwn a diffyg data hanesyddol ar gyfer pennu targedau'r rhaglen. Mae lefel is y cyfranogwyr wedi'i lliniaru i ryw raddau gan y ffaith y disgwylir i gyfran sylweddol uwch o'r cyfranogwyr hynny gyflawni canlyniadau allweddol. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae'r canlyniadau dipyn yn agosach mewn termau gwerth absoliwt i'r hyn a ddisgwylir yn y rhaglenni; ond amser a ddengys a fydd modd nodi rhai a all lenwi'r bwlch er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg.

Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu AP2.4 WWV / AP2.3 EW): Mae targedau ar gyfer y ddwy raglen yn unol yn fras â'r disgwyliadau, yn enwedig o gofio natur benodol yr amcan hwn.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP3.1: Diweithdra ymhlith ieuenctid	5	£107.7m	£50.5m	47%	4	£36.0m	£16.7m	46%
AP3.2: Cyrhaeddiad ac ymgysylltu ieuenctid	4	£68.3m	£40.0m	59%	3	£12.0m	£7.8m	65%
AP3.3: STEM	1	£10.0m	£1.7m	17%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.4: Blynyddoedd cynnar	1	£9.8m	£4.2m	42%	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 3	11	£195.8m	£96.3m	49%	7	£48.0m	£24.5m	51%

Flynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
Ysbrydoli i Gyflawni rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	£18.9m	£14.0m	£9.2m	£4.2m
TRAC 11-24	£13.1m	£9.0m	£5.0m	£2.5m
Cyflawni drwy Brofiad Gwaith	£5.2m	£3.6m	£2.1m	£1.1m
Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid	£8.3m	£5.8m		
Cynnydd	£19.1m	£13.3m		
Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)	£1.8m	£1.3m	£1.0m	£0.5m

Cymeradwywyd £55.3m arall yn y ddwy raglen ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Chwefror sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 49% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 51% yn Dwyrain Cymru. Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiad ieuenctid, a materion o ran NEET.

Mae *Amcan Penodol 1: Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)* yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhaglen Dwyrain Cymru yn cael ei weithredu drwy brif weithrediadau **Twf Swyddi Cymru** a **Hyfforddeiaethau** Llywodraeth Cymru. Mae gan **Twf Swyddi Cymru** ffocws clir ar gefnogi pobl ifanc 16-24 oed i fod yn barod ar gyfer gwaith sy'n ddi-waith ond sy'n methu â chael cyflogaeth oherwydd diffyg profiad gwaith, ac mae gweithrediad **Hyfforddeiaethau** yn targedu pobl ifanc 16-18 oed sydd wedi gadael addysg orfodol, ac mae'n anelu at wella lefelau sgiliau ei gyfranogwyr, gan eu galluogi i gael rhagor o hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl gadael.

Mae prif weithrediadau **Cymunedau am Waith** (ieuenctid) a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cymorth o fewn ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf i helpu unigolion ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, i ailymuno â gweithgarwch y farchnad lafur a dod o hyd i gyflogaeth

Atodiad 2: Diweddariad ESF

gynaliadwy, ac mae'r gweithrediadau **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)** a gymeradwywyd yn ddiweddar yn helpu rhieni ifanc 16-24 oed lle mai gofal plant yw'r prif rwysr iddynt weithio.

Mae'r gronfa **Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid** a arweinir gan CGGC yn ychwanegu at y portffolio drwy gyflwyno prosiectau cynhwysol wedi'u targedu a ddarperir gan y trydydd sector ar y cyfan, gan gynnwys gweithgarwch ymgysylltu'n gynnar a lleoliadau gwaith â chymorth. Mae cynigion pellach, gan gynnwys gweithrediadau rhanbarthol cydweithredol a arweinir gan awdurdodau lleol wrthi'n cael eu datblygu.

Mae *Amcan Penodol 2 yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhaglen Dwyrain Cymru: Lleihau nifer y bobl ifanc 11-24 oed nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)*, yn cael ei gyflawni drwy bortffolio o weithrediadau rhanbarthol a arweinir gan Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth â cholegau AB, sy'n targedu pobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET mewn ysgolion a cholegau. Bu ffocws y gweithgarwch gan WEFO dros y cyfnod ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ar ddatblygu'r maes blaenoriaeth hwn gyda saith o'r 11 o weithrediadau a gymeradwywyd yn ddiweddar yn helpu i gyflawni'r amcan penodol hwn. Mae'r holl weithrediadau yn gyson ag egwyddorion Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru, sef nodi'n gynnar, broceriaeth, olrhain a darpariaeth. Mae'r gweithrediadau rhanbarthol cymeradwy yn ddarpariaeth strategol i Gymru gyfan sydd wedi'i hategu gan y gweithgarwch arbenigol ar raddfa lai i helpu'r rhai yn y sector AU rhwng 19 a 24 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET. Gan adlewyrchu'r pwyslais cynyddol yn rhaglenni 2014-2020 ar nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET, mae llawer o'r gweithrediadau hyn wedi'u cynllunio i fynd ati mewn ffordd ragweithiol i nodi a thargedu cyfranogwyr sy'n wynebu rhwystrau penodol a sylweddol i gyrhaeddiad neu ymgysylltu.

Mae *Amcan Penodol 3: Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed*, yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig, yn canolbwyntio ar brif weithrediad **STEM Cymru II**, sy'n targedu pobl ifanc ar adegau pontio a gwneud penderfyniadau allweddol yn ystod addysg uwchradd a thrydyddol, gan roi sylw i nifer y merched sy'n dewis astudio pynciau STEM a lefelau cyrhaeddiad mewn pynciau STEM. Bydd y dull gweithredu hwn yn gwbl gyson â'r cyfleoedd twf economaidd a fynegir yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, ynglŷn â pheirianeg a meysydd cysylltiedig. Mae cyfle o fewn yr Amcan Penodol hwn i ddatblygu gweithgarwch STEM ychwanegol ac mae WEFO yn parhau i fod mewn trafodaethau â dau weithrediad posibl arall yn y maes hwn.

Caiff Amcan Penodol 4: Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant, yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig, ei ddatblygu ar sail gweithrediad **Cynnydd ar gyfer Llwyddiant** Llywodraeth Cymru a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2016. Bydd y prif ffocws ar uwchsgilio gweithwyr y sector Gofal Plant a Chwarae i Lefel 3; gyda chyfran lai o weithwyr gofal plant i'w huwchsgilio i Lefelau 4 a/neu 6.

Mae WEFO yn gweithio'n agos gyda buddiolwyr a'r rhai sy'n datblygu gweithrediadau o dan y flaenoriaeth hon ochr yn ochr â'r rhai yn y flaenoriaeth sy'n

Atodiad 2: Diweddariad ESF

ymwneud â thlodi er mwyn sicrhau y caiff portffolio a rhaglen gweithrediadau cydlynol ac integredig eu datblygu, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a chanlyniadau cyflogaeth. Mae WEFO yn parhau i gynnal cyfarfodydd â buddiolwyr gweithrediadau i drafod gweithgarwch, eu hannog i gyflawni'n gydweithredol a nodi unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg neu ddyblygu o ran darpariaeth. Mae'r cynnydd diweddaraf yn cynnwys ystyried yr opsiynau ar gyfer dull cydweithredol o werthuso gweithgarwch wedi'i gyflawni gan weithrediadau a arweinir gan yr awdurdod lleol o dan Amcan Penodol 2.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP3.1 Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)	Cyfranogwyr NEET (16-24 oed)	42,700	29,634	21,200	16,551
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is	20%	36%	20%	40%
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael	17%	17%	17%	15%
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael	28%	29%	28%	29%
AP3.2 Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET	Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed)	49,700	16,064	13,000	6,236
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2)	7%	14%	27%	17%
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael	19%	8%	18%	12%
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sydd â llai o berygl o fod yn NEET wrth adael	-	58%	-	59%

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Targed	Rhagolwg Prosiect
AP3.3 Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed	Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion	8,400	2,160	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod	15,000	2,830	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg - Dynion	55%	63%	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg - Menywod	55%	34%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion	45%	16%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod	45%	4%	n/a	n/a
AP3.4 Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant - dynion	300	73	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant - menywod	2,700	1,370	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion	77%	77%	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod	77%	76%	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Lleihau NEET (AP3.1): Mae rhagolygon y prosiect yn eithaf uchel o gymharu â'r swm a neilltuwyd, a ddylai roi cyfle i'r gweithrediadau sy'n weddill dargedu meysydd arbenigol a materion penodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y prif weithrediadau allweddol wedi'u cymeradwyo. Er enghraifft, rhagwelir 69% o'r cyfranogwyr a dargedir, ar sail 47% o wariant a neilltuwyd.

Wynebu risg o ddod yn NEET (AP3.2): Mae hwn yn faes gweithgarwch newydd sy'n cynnwys rhai gweithgareddau arloesol. Mae'r rhagolygon yn is na thargedau'r rhaglen, ond ni fu modd pennu targedau'r rhaglen ar sail data hanesyddol. Amser a ddengys a fydd modd cyflawni'r targedau drwy brosiectau sy'n llenwi bylchau neu a fydd angen ailystyried y rhesymeg sylfaenol dros y rhaglen o ddeall y dulliau cyflawni'n well, gan gynnwys monitro a gwerthuso, ar gyfer yr amcan hwn.

Astudio pynciau STEM (AP3.3. rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig):

Mae'r rhagolygon yn gyson â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried lefel y cyllid a neilltuwyd. Rhagwelir y bydd nifer y cyfranogwyr gwryw yn fwy na'r disgwyl, a all awgrymu bod angen targedu mwy o weithgarwch tuag at ferched. Disgwylir i lai o gyfranogwyr nag a ragwelwyd barhau i astudio pynciau cysylltiedig, a bydd angen mwy o waith ymchwilio er mwyn deall y rhesymau dros hyn: Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu gofal ar ran buddiolwyr sy'n cydnabod bod penderfyniadau o'r fath gan gyfranogwyr yn ymwneud â nifer fawr o ffactorau sydd y tu hwnt i'r ymyriad dan sylw. Gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar (AP3.4 rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae'r rhagolygon yn gyson â'r dyraniad ariannol cymeradwy hyd yma, er bod ychydig mwy o gyfranogwyr benywaidd na'r hyn a nodwyd yn nogfennau'r rhaglen.

Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
Cyfanswm Blaenoriaeth 4	4	£12.8m	£6.7m	52%	3	£3.3m	£1.0m	32%

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Cymeradwyaethau ers cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Chwefror 2016

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Gogledd Cymru	£0.34m	£0.25m	£0.07m	£0.03m
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru	£0.28m	£0.21m	£0.06m	£0.03m
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe	£0.46m	£0.34m		

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Byddant yn parhau i gyfrannu at y newid tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur o safbwynt rhanbarthol ac ymgysylltu ynglŷn â gweithrediadau ESF.

Mae pedwar gweithrediad ar y cam Cynllunio Busnes, gan gynnwys ceisiadau Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru a cheisiadau TA WEFO. Rydym yn rhagweld y caiff pob un o'r pedwar gweithrediad ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Medi.

Adran 1: Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn manylu ar y cynnydd ariannol presennol o dan Raglen WGRC-RDP2014-2020.

Dengys Tabl 1 y gwariant hyd yma, a'r Grant UE a gymeradwywyd o dan Raglen WGRC-RDP, ynghyd â Grant yr UE y gellid ei neilltuo o bosibl os bydd y Gweithrediadau sydd ynghlwm a'r Cam Cynllunio Busnes a'r Cam Cyn Cynllunio yn mynd rhagddynt.

Tabl 1: Gwariant, neilltuo cyllid a Chynllunio Busnes

Gwariant £'m		Neilltuo cyllid £'m		Chynllunio Busnes £'m	
CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD
£40.07	£29.44	£379.40	£252.77	£150.25	£86.32

Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae WGRC-RDP2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers iddo gael ei gymeradwyo ar 28 Mai 2015.

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw nad yw ceisiadau i Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cael eu dethol ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd cynlluniau o dan WGRC-RDP2014-2020 yn agor ac yn cau ar gyfer ceisiadau'n gyfnodol drwy gydol oes y rhaglen, yn dibynnu ar ddyraniadau ariannol y rhaglen sydd ar gael.

O gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb mae cyfanswm o £529m wedi ei neilltuo, y mae £339m ohono yn arian yr UE. Mae rhannau o'r rhaglen ar gam mwy datblygedig o ran cyflawni a chymeradwyo nag eraill; dylid disgwyl hyn o ystyried yr amrywiaeth eang o weithgareddau y gellir eu cefnogi drwy'r rhaglen a'r cam y mae'r broses o gyflawni rhaglen wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd. O ran y gyfres o gynlluniau amaeth-amgylchedd-hinsawdd Glastir a choedwigaeth, cofnodwyd gwariant o ychydig o dan £40.07m, y mae £29.44m yn arian yr UE.

O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 234 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus, gyda dyraniad o £45.62m, i gyflwyno cais llawn. Hyd yma, mae 67 o geisiadau wedi dod i law. O'r rhain, mae 11 wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm dyraniad o £4.03m. Bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y misoedd sydd i ddod o ganlyniad i gyfnodau datganiadau o ddiddordeb diweddar.

Mae nifer o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb wedi agor, hyd yma, yn y Rhaglen; bydd rhagor yn agor dros y 12 mis nesaf i gynnwys y cynlluniau canlynol:

- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig o dan Fesur 7 (£3m)
- Glastir - Adfer Coetir o dan Fesur 8.4 (£1m)
- Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o dan Fesur 4.1 (£6m)
- Grantiau Bach Glastir o dan Fesur 4.4 (£1.5m)
- Glastir - Creu Coetir o dan Fesurau 8.1 ac 8.2 (£1.7m)

Cynnydd dangosyddion

Ar y cam hwn o gyflawni'r rhaglen, nid oes modd llunio rhagolygon yn erbyn dangosyddion ar gyfer pob Mesur / Maes Canolbwyntio. Darperir gwerthoedd targed cymeradwy yn ôl Maes Canolbwyntio hyd yn oed lle nad yw data rhagolygon ar gael. Gellir priodoli'r amrywiannau rhwng rhagolygon a ffigurau gwirioneddol a nodir yn erbyn targedau dangosyddion ar gyfer y rhaglen i'r gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr elfennau o'r rhaglen sy'n ymwneud â thir ac agweddau economaidd-gymdeithasol eu cyflawni. Ar gyfer y targedau allbwn nad oes rhagolygon ar eu cyfer eto, dylai data fod ar gael yn ystod y misoedd sydd i ddod, yn sgil canlyniadau a chymeradwyaethau o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb. Bydd angen monitro gweithrediadau cymeradwy a chytundebau'n fanwl er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau a ddisgwylir eu sicrhau.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth**Blaenoriaeth 1: Annog pobl i gyfnewid gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig****Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 1(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig	1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£50.00m	£0
	2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£13.07m	£0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£71.80m	£0
FA 1(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a coedwigaeth ac ymchwil arloesi	16.1	Nifer y grwpiau gweithredol EIP l'w cefnogi (sefydliad a gweithrediad)	45	45
	16.2 i	Nifer y gweithrediadau cydweithredu eraill (grwpiau, rhwydweithiau/clystyrau, prosiectau peilot....) (16.2 i 16.9)	1,102	0
	16.9			
FA 1(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth	1.1	Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	13,000	0

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori – Mesurau 1 a 2

Dechreuodd y contractau newydd ar gyfer y rhaglen, a elwir yn Cyswllt Ffermio, ar 1 Hydref 2015, gan gyd-daro â diwedd y gwasanaeth blaenorol. Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth a'r Gwasanaeth Cynghori yn cael eu darparu gan Menter a Busnes. Lantra yng Nghymru sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu. Mae cymhwysedd i gymryd rhan yn y rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth newydd wedi cael ei ehangu i alluogi mwy o fusnesau ac unigolion sy'n gweithio yn y sectorau amaethyddol, coedwigaeth a bwyd i gymryd rhan, gan gynnwys myfyrwyr. Mae'n gyson â phecynnau a gweithgareddau cymorth busnes eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Busnes Cymru a Cymru Effeithlon.

Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Bydd y gweithgarwch yn canolbwyntio ar wella perfformiad amgylcheddol, effeithlonrwydd cynhyrchu, proffidioldeb, a sicrhau mwy o ymddygiad ac agweddau sy'n canolbwyntio ar fusnes drwy arferion rheoli cadarnhaol. Fel rhan o'r rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, mae rhwydwaith Arddangos newydd i Gymru gyfan wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys y canlynol:

- Safleoedd arloesi, wedi'u lleoli mewn safleoedd amaeth-academaidd blaenllaw yng Nghymru;
- Safleoedd Arddangos, sef rhwydwaith o safleoedd hirdymor sy'n ystyried y ffordd y gellir integreiddio technoleg newydd a/neu ddulliau rheoli newydd; codi safonau effeithlonrwydd ar y fferm; gostwng mewnbynnau, cynyddu allbynnau; proffidioldeb;
- Safleoedd ffocws, sy'n arddangos prosiectau 'untro' neu dreialon ar amrywiaeth eang o bynciau.

Mae Cyfnewidfa'r Ffermwyr hefyd yn ddatblygiad newydd gan Cyswllt Ffermio, sy'n galluogi ymgeiswyr llwyddiannus i deithio i ddaliad fferm neu goedwigaeth blaenllaw yn yr UE i ddysgu am ffyrdd newydd a gwell o weithio o fewn y sectorau. Y nod yw eu bod yn ystyried dulliau gwahanol o reoli eu busnes, yn ehangu eu gwybodaeth, eu gallu technegol a'u harbenigedd rheoli, a rhoi cyfleoedd datblygu newydd ar lefel personol a lefel y busnes. Cyhoeddwyd y grŵp cyntaf o ymgeiswyr llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru eleni.

Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu: y nod yw sicrhau diwydiant ffermio a choedwigaeth mwy proffesiynol a chaiff ei gyflawni drwy gyfuniad o hyfforddiant uniongyrchol a darpariaeth dysgu ar-lein. Bydd y rhaglen yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu sgiliau busnes a gweddnewid ac yn cynnig cyrsiau ac iddynt fwy o ffocws a chysiau strategol.

Gwasanaeth Cyngori: Bydd y gwasanaeth cyngori yn rhoi cyngor annibynnol a phwrpasol i unigolion a grwpiau er mwyn gwella dulliau rheoli cynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermio, coedwigaeth a gweithgynhyrchu bwyd BBaChau sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig.

EIP-AGRI – Cymru: Mae Cyswllt Ffermio yn helpu i ddatblygu EIP-AGRI Cymru drwy wahanol ddulliau, yn bennaf y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth a Broceriaeth Gwybodaeth. Caiff y cymorth hwn ei anelu at hwyluso datblygu Grŵp Gweithredol, gyda hyd at £40k ar gael ar gyfer pob grŵp i ddatblygu ei syniadau. Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, sydd wedi'i lleoli yn IBERS, Aberystwyth, fydd y pwynt cyswllt cyntaf i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru er mwyn cofrestru eu diddordeb mewn datblygu eu syniadau arloesol a holi am ddarpar bartneriaid addas. Dim ond prosiectau y mae'r Ganolfan yn tybio eu bod yn addas a gaiff eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru, a'u gwahodd i gyflwyno cais llawn. Gall brocer gwybodaeth gefnogi'r grŵp drwy'r cam datblygu, a bod ar gael i hwyluso'r prosiect os bydd ei gais yn llwyddiannus.

Menter: Mae hon yn nodwedd newydd. Mae llwyfan Menter yn fframwaith gweithgarwch integredig, sy'n dwyn ynghyd amrywiol elfennau o wasanaethau Cyswllt Ffermio a fydd yn helpu symudedd yn y sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth yng Nghymru. Bydd yn nodi ac yn paru perchenogion tir sefydledig sydd am ymrwymo i gontract neu rannu ffermio, gan roi cyfle i ddarpar ffermwyr newydd neu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Blaenoriaeth 2: Gwella hyfywedd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol ac ym mhob rhanbarth gan hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar gyfer coedwigoedd

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 2(a) Hwyluso ailstrwythuro ffermydd s'yn wynebu	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	8,560	0
problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd â gradd isel o gyfranogiad yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol yn y farchnad a ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddol	1.1	Nifer o diwrnodau o hyfforddiant a roddwyd	16,160	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£3.74m	£0
	1.2	Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	0
	1.3	Nifer gweithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	10	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£34.8m	£0
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	5,160	0
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	110	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£6.55m	£0
	4.1	Nifer o daliadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn daliadau amaethyddol	2,431	0
	4.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£57.55m	£0
	4.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith	£1.80m	£0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£148.36m	£0
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£59.35m	£0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.36m	£0

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Maes Canolbwyntio 2a

Hyd yma, gwahoddwyd cyfanswm o 51 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus ac un cais uniongyrchol i gyflwyno cais llawn o dan Flaenoriaeth 2 (Maes Canolbwyntio 2a) o WGRC-RDP2014-2020.

Mae cyfanswm o 11 o geisiadau llawn ar gyfer y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o dan Fesur 4.1 wedi dod i law, gan neilltuo cyfanswm o £2.0m.

O'r 11 o geisiadau sydd wedi dod i law hyd yma mae un wedi'i gymeradwyo, gyda chyfanswm dyraniad o £0.3m.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni yn y dyfodol yn dangos y cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Mesur 4.1 – mae Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn rhoi cymorth i ffermwyr wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliad amaethyddol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru ar gyfer busnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chydnerth.

Nod y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yw darparu buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau a chyfarpar sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, storio cnydau, storio a thrafod cynnyrch, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli pridd a chnydau. Mae grantiau yn cyfrif am gyfraniad o 40% a gallant amrywio o isafswm o £16k hyd at uchafswm o £0.4m i gynyddu buddsoddi ar y fferm, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o ran adnoddau er mwyn gwella perfformiad technegol.

Hyd yma, cynhaliwyd dau gylch o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, y cyntaf am gyllideb o £2.0m gyda 12 o fuddiolwyr a'r ail am £6.0m a 40 o fuddiolwyr. Hyd yma, nid oes unrhyw daliadau wedi'u gwneud i fuddiolwyr. Bwriedir agor trydydd cyfnod ym mis Medi, unwaith eto gyda chyllideb o £6.0m a 40 o fuddiolwyr.

Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 3(a) Integreiddio gwell o gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau o ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadranol	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	1,000	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	1,000	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.23m	£0
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	15	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£2.31m	£0
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	600	0
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	110	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.83m	£0
	4.1 + 4.2	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee mewn taliadau amaethydool, mewn prosesu ac mewn marchnata cynnyrch amaethyddol) (4.1 and 4.2)	120	0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£99.45m	£0
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£39.99m	£0
	16.4	Nifer o daliadau amaethyddol yn cymryd rhan mewn cydweithredu/hybu lleol ymhlith gweithredwyr yn y gadwyn gyflenwi (16.4)	165	0
	16	Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP)	80	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£22.18m	£0

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Maes Canolbwyntio 3a

Hyd yma, gwahoddwyd 70 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a thri chais uniongyrchol i gyflwyno cais llawn o dan Flaenoriaeth 3 (Ardal Ffocws 3a) y Rhaglen. Hyd yma, mae 45 o geisiadau llawn wedi dod i law, gan neilltuo cyfanswm o £38.7m, ac o'r rhain mae:

- 22 o geisiadau llawn ar gyfer Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio o dan Fesur 16.4 wedi dod i law, sef cyfanswm o £7.0m
- 20 o geisiadau llawn ar gyfer Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd o dan Fesur 4.2 wedi dod i law, sef cyfanswm o £9.9m
- tri chais llawn ar gyfer y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi o dan Fesur 1.1 wedi dod i law, sef cyfanswm o £21.6m

O'r 45 o geisiadau llawn sydd wedi dod i law hyd yma mae 10 wedi cael eu cymeradwyo, gyda chyfanswm dyraniad o £3.7m.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	995	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	1,911	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.39m	£0
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	55	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	14	0
	1.1 -1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£4.18m	£0
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	1,330	0
	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd	114	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.95m	£0
	4.4	Nifer o weithrediadau cymorth ar gyfer fuddsoddiadau anghynhyrchiol (4.4)	16,425	9,453
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£169.48m	£106.97m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£169.48m	£106.97m
	8.1	Arwynebedd (ha) i gael ei coedwigo (sefydliad yn unig-8.1)	2,160	2,000
	8.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£11.49m	£10.64m
	8.2	Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2)	147	50
	8.2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.2)	£0.42m	£0.21m
	10.1	Cyfanswm arwynebedd (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylcheddunder (10.1)	0.00	0.00
	10.1	Arwynebedd Ffisegol (ha) o dan hinsawdd ameth-amgylchedd (10.1)	688,000	£528,010
	10.1	Nifer o contractau a gefnogwyd	11,585	7,338
	10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) (10.1+10.2)	£243.36m	£230.05m
	11.1	Nifer o daliadau a gefnogwyd	400	201
	11.1	Arwynebedd (ha) a trosglwywyd i ffermio organig	48,000	11,153
	11.2	Nifer y daliadau a gefnogwyd	600	341
	11.2	Arwynebedd (ha) cynnal ffermio organig	72,000	57,287
	11	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£43.99m	£21.18m
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	30	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£8.43m	£0

Atodiad 3: RDP

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
Priority 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth (ardal coedwigaeth)	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	105	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	189	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.04m	£0
	1.2	Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	5	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	1	0
	1.1 -1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.41m	£0
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	70	0
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	6	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.11m	£0
	8.3	Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol (8.3)	0.25	0
	8.3	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)	76,000	0
	8.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£0.26m	£0
	8.4	Nifer o fuddiolwyr a gefnogwyd	55	0
	8.4	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)	530	0
	8.4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.24m	£0
	8.5	Nifer o weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer wella gwydnwch a werth ecosystemau coedwigaeth) (8.5)	1,745	501
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	32,850	7,000
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£15.07m	£5.57m
	15.1	Nifer o contractau a gefnogwyd	70	0
	15.1	Ardaloedd dan gontract amgylchedd coedwig	700	0
	15.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.30m	£0
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	215	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£4.61m	£0

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Mae'r diweddariad ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y cynnydd o dan Glastir, hyd yma. Noder bod y naratif, yma, hefyd yn mynd i'r afael â Meysydd Canolbwyntio 5d a 5e o dan Flaenoriaeth 5. Ceir rhagor o fanylion isod.

Mae **Glastir** yn mynd i'r afael â'r meysydd canolbwyntio canlynol:

- Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Grantiau Bach Glastir – meysydd canolbwyntio 4a, 4b, 5d a 5e.
- Glastir - Tir Comin – maes canolbwyntio 4a.
- Glastir Organig – maes canolbwyntio 4c.
- Glastir - Creu Coetir – meysydd canolbwyntio pob un o feysydd canolbwyntio Blaenoriaeth 4 a maes canolbwyntio 5e.
- Glastir - Rheoli ac Adfer Coetir – meysydd canolbwyntio 4a a 5e.

Mae llawer o'r ffigurau a gyflwynwyd, ar hyn o bryd, yn cyfeirio at gyfansymiau'r holl feysydd canolbwyntio perthnasol. Rydym yn anelu at baratoi adroddiadau cadarnach ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni yn y dyfodol, gan gynnwys adroddiadau yn ôl meysydd canolbwyntio.

Dylid nodi nad yw'r cynnydd cronol hyd yma yn cyfateb o reidrwydd i ragolygon dangosyddion / cyflawniadau gan fod Mesur 8.3, 10, 11, 15 ynghyd â'r elfennau o Fesurau 8.1 ac 8.2 sy'n ymwneud â chynnal a chadw yn amlflwydd eu natur ac felly dim ond gweithgarwch yn ystod y flwyddyn a nodir yn erbyn eu priod ddangosyddion. Ar gyfer Mesurau 2.1, 4.1, 4.4, 8.4, 8.5, 8.6 a'r elfennau o Fesurau 8.1 ac 8.2 sy'n ymwneud â sefydlu er y nodir mai cronol ydynt, dim ond gweithrediadau wedi'u cwblhau a gofnodir

O dan **Fesur 10.1** cafwyd cyfanswm gwariant o £26.9m. Mae hyn yn cynnwys 7,338 o gontractau ac yn ymestyn dros arwynebedd o 528,010 hectar. Mae Mesur 10.1 yn cynnwys Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Glastir - Tir Comin. Mae hefyd yn cynnwys taliadau amlflwydd ar sail arwynebedd ar gyfer coetiroedd fferm sy'n bodoli eisoes o dan Glastir - Rheoli Coetir.

Mae **Glastir Sylfaenol** wedi sicrhau cyfanswm o 4,591 o gontractau, sef cyfanswm arwynebedd o 413,010 hectar. Cyfanswm y gwariant ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig hwn yw £16.4m ar gyfer M10.1. Ni chaiff unrhyw gontractau eraill eu cynnig, gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymyriadau wedi'u targedu, megis y rhai o dan Glastir Uwch a, bellach, Grantiau Bach Glastir yn fwy priodol er mwyn cyflawni ei hamcanion. Bydd cyfranogwyr Glastir Sylfaenol y mae eu contractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr yn cael cyfle i wneud cais i Grantiau Bach Glastir, sef cynllun cyfalaf a ariennir drwy Fesur 4.4 sy'n mynd i'r afael â meysydd canolbwyntio 4a a 4b Blaenoriaeth 4, yn ogystal â meysydd canolbwyntio 5d a 5e Blaenoriaeth 5.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu estyn contractau Glastir Sylfaenol sy'n ategu contractau Glastir Uwch er mwyn iddynt orffen ar yr un pryd. Byddai hyn yn golygu y byddai rhai contractau Glastir Sylfaenol yn cael eu hestyn rhwng 1 a 3 blynedd.

Mae **Glastir Uwch** bellach yn cynnwys 2082 o gontractau, ac o'r rhain mae 495 yn gontractau ar wahân, mae 1,508 o gontractau wedi'u hategu gan Glastir Sylfaenol ac mae 79 o gontractau eraill yn rhan o Glastir - Tir Comin. Y gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hwn yw £6.5m ar gyfer M4.4 a £9.2m ar gyfer M10.1. Mae Rheolwyr Contract Glastir wrthi'n negodi contractau Glastir Uwch i ddechrau 1 Ionawr 2017, ond mae angen i gynigion gael eu gwneud cyn datganiad hydref Trysorlys EM er mwyn sicrhau bod cyllid wedi'i warantu ar gyfer hyd y contract. Bydd unrhyw gylchoedd Glastir Uwch yn y dyfodol yn dibynnu ar sicrwydd hirdymor gan Drysorlys EM i'w hariannu ac ni roddwyd dim sicrwydd, hyd yma.

Hyd yma, mae 55 o gynlluniau gwaith cyfalaf gweithrediadau wedi'u cwblhau gwerth £0.26m.

Mae **Glastir - Tir Comin** bellach wedi cau ac mae'n cynnwys 197 o gontractau sy'n ymestyn dros 119,069 hectar o dir. Cyfanswm y gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hwn yw £1.3m ar gyfer M10.1. Cynigir estyniad i bob contract cymwys hyd at 2019, er mwyn sicrhau bod digon o amser i Gymdeithasau Pori ystyried dulliau ariannu eraill, megis y Cynllun Rheoli Cynaliadwy neu dalu am brosbectysau gwasanaethau ecosystem.

Mae **Mesur 11 – Glastir Organig** yn helpu ffermwyr i newid i arferion ffermio organig (M11.1) neu eu cynnal (M11.2). Ar ôl dau gylch o geisiadau Glastir Organig, sicrhawyd 112 o gontractau i newid i arferion ffermio organig a 441 o gontractau i gynnal arferion ffermio organig, sy'n ymestyn dros arwynebedd o 68,440 hectar (11,153 hectar ar gyfer M11.1 a 57287 ar gyfer M11.2). Cyfanswm y gwariant ar gyfer M11 yw £3.9m.

O dan **Mesur 8.1 – Glastir - Creu Coetir** crëwyd 107.59 hectar o goetir newydd. Mae'r rhan fwyaf wedi'i greu o dan M8.1 – Codwigo a chreu coetir, gyda dim ond 1 hectar o dan M8.2 – Amaeth-goedwigaeth. Cyfanswm y gwariant hyd yma yw £0.46m, y mae £78k ohono wedi'i wario ar faes canolbwyntio 5e. Ni chaiff yr hawliadau cyntaf ar gyfer cynnal a chadw ac incwm a gollwyd tan SAF2017. Bwriedir agor dau gyfnod arall ar gyfer Glastir - Creu Coetir ym mis Awst 2016 a mis Mawrth 2017 gyda chyllidebau o £1.7m.

Mae **Mesur 8.5 – Glastir - Rheoli Coetir** yn cynnwys contractau etifeddol yn unig o'r Cynllun Datblygu Gwledig blaenorol ac fe'i telir drwy M8.5 ar gyfer taliadau cyfalaf a 10.1 ar gyfer taliadau amlflwydd sy'n seiliedig ar arwynebedd. Ar hyn o bryd, mae

268 o contractau ar waith, gyda gwariant o £1.3m ar gyfer M8.5 a £71k o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hwn

Mae **Mesur 8.4 – Glastir - Adfer Coetir** yn rhoi cymorth i ailstocio coetiroedd llarwydd sydd wedi cael eu heintio neu eu peryglu gan y pathogen ffwngaid Phytophthora ramorum a bu tri chylch i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hwn. Hyd yma, cafwyd gwariant o £0.75m yn y ddau gyfnod cyntaf, sy'n golygu bod arwynebedd o 317 hectar o goetir yn cael ei adfer. Bwriedir agor dau gyfnod arall ar gyfer Glastir - Adfer Coetir ym mis Awst 2016 a mis Awst 2017 gyda chyllidebau o £1.0m yr un.

Mesur 2 – Cymorth cynghorol. O dan y rhaglen hon, mae Glastir yn bwriadu defnyddio cymorth cynghorol i drefnu i gynlluniau rheoli dŵr gael eu cynnal ac i gynlluniau coetir gael eu dilysu yn erbyn Safon Coedwigaeth y DU gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, mae angen defnyddio arbenigedd ymddiriedolaethau archeolegol Cymru i roi cyngor i Reolwyr Contract ar y dull rheoli mwyaf addas ar gyfer contractau Glastir Uwch. Hyd yma, ni ddyfarnwyd unrhyw gyllid.

At hynny, gwnaeth adroddiad panel Gwerthuso Annibynnol Glastir Uwch nifer o argymhellion gan gynnwys yr argymhelliad bod angen arweiniad, cymorth a hyfforddiant o safon uwch ar Reolwyr Contract ac mae angen mwy o ymweliadau dilynol a chynghor i Gontractau. I'r perwyl hwn, dechreuodd Llywodraeth Cymru gaffael gwasanaeth a allai gyflawni cylch gwaith yr argymhellion hyn. Hyd yma, nid oes unrhyw contract wedi'i ddyfarnu, gyda'r penderfyniad i ddyfarnu yn aros tan negodiadau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU i warantu'r cyllid.

Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau a chynorthwyo'r gwaith o symud at economi carbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

Tabl 6: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 5(b) Cynyddu effeithlonrwydd yn y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o gyfranogwyr mewn hyfforddiant	64	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	124	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.02m	£0
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	5	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.26m	£0
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	98	0
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	2	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.21m	£0
	4.1, 4.2 & 4.3	Nifer o weithgariadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn taliadau amaethyddol, mewn prosesu a marchnata	286	0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£16.93m	£0
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£6.77m	£0
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	20	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£5.18m	£0

Atodiad 3: RDP

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 5(c) Hwyluso cyflenwad a defnydd adnoddau	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	68	0
adnewyddadwy o ynni, o sgil-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi.	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	128	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm wariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.03m	£0
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	5	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm wariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.30m	£0
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	98	0
	2.3	Nifer gynghorwyr a hyfforddwyd	2	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.17m	£0
	4.1 + 4.3	Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad (4.1, 4.3)	187	0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£3.97m	£0
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.59m	£0
	7.2	Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith graddfa fechan yn cynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddiadwy ac arbed ynni (7.2)	197	0
	7	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£19.57m	0
	7	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£16.31m	£0
	8.5	Nifer o weithgareddiadau (buddsoddiadau i wella cydnherthu a gwerth systemau eco coedwigaeth (8.5)	25	0
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	1,870	0
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.04m	£0
	8.6	Nifer o weithgareddiadau ar gyfer buddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a prosesu cynradd/marchnata (8.6)	250	0
	8.6	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) (8.6)	£19.29m	£0
	8.6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£8.19m	£0
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	135	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£12.28m	£0

Atodiad 3: RDP

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 5(d) Lleihau ocsid nitraidd a methan o amaethyddiaeth	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	884	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	1,684	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm variant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.34m	£0
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	5	0
	1.1 -1.3	Cyfanswm variant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£3.71m	£0
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	1,120	0
	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd	2	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.52m	£0
	4.1, 4.3 & 4.4	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee storio tail, triniaeth tail) (4.1, 4.4 and 4.3)	143	150
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£8.46m	£0.09m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£3.39m	£0.09m
	10.1	Arwynebedd (ha) (ee gorchudd gwyrdd, is-grwd, ffrwythloni llai, dad-ddwysai...)	199,766	59,807
	10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£17.92m	£11.67m
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP)	20	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£5.18m	£0

Atodiad 3: RDP

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 5(e) Meithrin dal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	84	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a rhoddwyd	164	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.03m	£0
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	5	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.33m	£0
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	84	0
	2.3	Nifer y gynghorwyr a hyfforddwyd	2	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.20m	£0
	4.4	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd mewn buddsoddiad anghynhyrchiol (4.4)	5,090	151
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£3.59m	£0.36m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.30m	£0.36m
	8.1	Arwynebedd (ha) i gael ei goedwigo (sefydliad yn uig-8.1)	1,440	832
	8.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£7.66m	£4.43m
	8.2	Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2)	147	50
	8.2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.43m	£0.20m
	8.3	Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol	0.75	0
	8.3	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)	225,000	0
	8.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.3)	£0.78m	0
	8.4	Nifer y fuddiolwyr a gefnogwyd	160	184
	8.4	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)	1,591	1,781
	8.4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.4)	£3.72m	£4.02m
	8.5	Nifer y weithrediadau (buddsoddiadau ar gyfer gwella gwydnwch a gwerth ecosystemau coedwigaeth) (8.5)	1,850	393
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a buddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	22,000	3,000
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.5)	£9.95m	£2.72m
	10.1	Arwynebedd ffisegol (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylchedd ar gyfer dal a storio carbon	585	1,140
	10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£2.24m	£1.06m
	16	Nifer y gweithgariadau cydwethredu a gefnogwyd (dim EIP)	220	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£5.48m	0

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2016

Hyd yma, gwahoddwyd un datganiad o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Flaenoriaeth 5 (Maes Canolbwyntio 5c).

Gwahoddwyd y cais llawn o dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig o dan Fesur 7.2 o'r Rhaglen. Hyd yma, nid oes unrhyw gais llawn wedi dod i law.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwaith i leihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig

Tabl 7: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Atodiad 3: RDP

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 6(a) Hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	336	0
	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd	5	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.44m	£0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£2.13m	£0
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.85m	£0
	6.2 + 6.4	Nifer o fuddiolwyr (daliadau) yn derbyn cymorth cychwyn/cefnogaeth ar gyfer fuddsoddiad mewn wweithgareddau nad ydynt yn amaethyddol mewn ardaloedd gwledig (6.2 and 6.4)	140	0
	6	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£27.50m	£0
	6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£15.00m	£0
	8.5	Nifer o weithgareddiadau (fuddsoddiadau i wella cydnetheru a werth systemau eco coedwigaeth (8.5)	400	0
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	4,000	0
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.60m	£0
	8.6	Nifer o weithrediadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a prosesu cynradd/marchnata (8.6)	44	0
	8.6	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) (8.6)	£3.96m	£0
	8.6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.6)	£1.70m	£0
	16	Nifer y weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	106	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.59m	£0
	6.2, 6.4, 8.6	Nifer o swyddi a grewyd	142	0

Maes Canolbwyntio 6a

Gwahoddwyd 21 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Faes Canolbwyntio 6(a).

Gwahoddwyd ceisiadau llawn o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren o dan Fesur 8.6. Hyd yma, nid oes unrhyw gais llawn wedi dod i law.

Atodiad 3: RDP

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
			2014-2020														
			P2		P3		P4			P5					P6		
2a	2b	3a	3b	4a	4b	4c	5a	5b	5c	5d	5e	6a	6b	6c			
1 (14)	Training/skills acquisition (1.1)	Nr of participants in trainings	7,484	0	986	0	875	0	194	194	194	194	0	0	97	10,220	
		Total public for training/skills	€ 3,155,935.48	€ 0.00	€ 27,303,121.92	€ 0.00	€ 368,875.58	€ 0.00	€ 81,972.35	€ 81,972.35	€ 81,972.35	€ 81,972.35	€ 0.00	€ 0.00	€ 40,986.18	€ 31,196,808.54	
	Total public expenditure (€) (trainings, farm exchanges, demonstration) (1.1 to 1.3)	€ 42,652,855.84	€ 0.00	€ 29,867,857.00	€ 0.00	€ 4,985,398.73	€ 0.00	€ 1,107,866.39	€ 1,107,866.39	€ 1,107,866.39	€ 1,107,866.39	€ 0.00	€ 0.00	€ 553,933.19	€ 82,491,510.32		
2 (15)	Nr of beneficiaries advised (2.1)		2,760	0	240	0	4,026	0	66	52	865	770	133	0	0	8,912	
	Total public expenditure € (2.1 to 2.3)		€ 8,452,241.77	€ 0.00	€ 865,564.95	€ 0.00	€ 6,536,482.96	€ 0.00	€ 238,030.36	€ 187,539.07	€ 2,276,310.79	€ 1,340,519.39	€ 480,388.55	€ 0.00	€ 0.00	€ 20,377,077.84	
4 (17)	Total investment € (public + private)		€ 175,312,502.25	€ 0.00	€ 117,000,000.00	€ 0.00	€ 107,491,727.39	€ 0.00	€ 20,625,000.27	€ 0.00	€ 10,925,306.56	€ 363,980.10	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 431,718,516.57	
	Total public expenditure (€)		€ 70,125,000.90	€ 0.00	€ 44,750,000.00	€ 0.00	€ 107,491,727.39	€ 0.00	€ 8,250,000.11	€ 0.00	€ 4,217,649.53	€ 363,980.10	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 235,198,358.03	
6 (19)	Total investment € (public + private)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 53,822,012.30	€ 0.00	€ 0.00	€ 53,822,012.30	
	Total public expenditure (€)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 24,385,948.12	€ 0.00	€ 0.00	€ 24,385,948.12	
7 (20)	Nr of operations		0	0	0	0	0	0	0	197	0	0	0	436	49	682	
	Total public expenditure (€)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 19,190,481.39	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 51,455,817.73	€ 3,103,704.66	€ 73,750,003.78	
8 (21)	Total public expenditure (€) (8.1)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 17,735,040.36	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 7,404,656.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 25,139,696.36	
	Total public expenditure (€) (8.2)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 40,000.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 40,000.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 80,000.00	
	Total public expenditure (€) (8.3)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 325,000.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 975,000.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 1,300,000.00	
	Total public expenditure (€) (8.4)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 1,674,174.38	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 5,022,523.15	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 6,696,697.53	
	Total public expenditure (€) (8.5)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 5,132,742.66	€ 0.00	€ 0.00	€ 10,631.38	€ 0.00	€ 3,230,162.45	€ 127,576.61	€ 0.00	€ 0.00	€ 8,501,113.10	
	Total public expenditure (€) (8.6)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 8,333,500.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 1,666,500.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 10,000,000.00	
10 (28)	Area (ha) under agri-environment-climate (10.1)		0	0	0	0	635,399	0	0	0	59,807	3,022	0	0	0	698,228	
	Total public expenditure (€) (10.1 + 10.2))		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 230,550,435.74	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 11,761,246.63	€ 1,061,224.66	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 243,372,907.03	
11 (29)	Area (ha)	conversion (11.1)	0	0	0	0	11,153	0	0	0	0	0	0	0	0	11,153	
		maintenance (11.2)	0	0	0	0	57,287	0	0	0	0	0	0	0	0	57,287	
	Total public expenditure (€)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 26,474,317.45	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 26,474,317.45	
15(34)	Area (ha) (15.1)		0	0	0	0	700	0	0	0	0	0	0	0	0	700	
	Total public expenditure (€) (15.1 to 15.2)		€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 375,000.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 0.00	€ 375,000.00	
16 (35)	Nr of farms participating in cooperation/local promotion among supply chain actors				50											50	
	Nr of EIP operational group															45	
	Nr of non EIP cooperation operations															912	
	Total public expenditure (€)		€ 452,939.76	€ 0.00	€ 33,165,810.53	€ 0.00	€ 13,762,132.59	€ 0.00	€ 224,632.53	€ 1,092,279.53	€ 224,632.53	€ 577,572.53	€ 367,647.00	€ 64,476,606.75	€ 0.00	€ 114,344,253.75	
19 (42-44)	Number of LAGs selected													18		18	
	Population covered by LAG													1,381,745		1,381,745	
	Total public expenditure (€)	Preparatory support (19.1)												€ 55,680.00		€ 55,680.00	
		support for implementation of operations under the CLLD strategy (19.2)												€ 41,457,514.04		€ 41,457,514.04	
		preparation and implementation of cooperation activities of the local action group (19.3)												€ 4,155,205.88		€ 4,155,205.88	
		support for running costs and animation (19.4)												€ 13,878,076.47		€ 13,878,076.47	

1.3. Secondary effects: identification of potential contributions of Rural Development measures/sub-measures programmed under a given focus area to other focus areas / targets

ec	Measure	P1			P2		P3		P4			P5					P6		
		1A	1B	1C	2A	2B	3A	3B	4A	4B	4C	5A	5B	5C	5D	5E	6A	6B	6C
2A	M01 - Knowledge transfer and information actions (art 14)	X		X	P		X		X	X	X		X	X	X	X			X
	M02 - Advisory services, farm management and farm relief services (art 15)	X			P		X		X	X	X		X	X	X	X	X		
	M04 - Investments in physical assets (art 17)				P														
	M16 - Co-operation (art 35)	X	X		P		X		X	X	X		X	X	X	X	X	X	
2B	M01 - Knowledge transfer and information actions (art 14)	X		X	X			X	X	X	X		X	X	X	X			X
	M02 - Advisory services, farm management and farm relief services (art 15)	X			X		X		X	X	X		X	X	X	X	X		
	M06 - Farm and business development (art 19)																		
3A	M01 - Knowledge transfer and information actions (art 14)	X		X	X		P		X	X	X		X	X	X	X			X
	M02 - Advisory services, farm management and farm relief services (art 15)	X			X		P		X	X	X		X	X	X	X	X		
	M04 - Investments in physical assets (art 17)						P												
	M16 - Co-operation (art 35)	X	X		X		P		X	X	X		X	X	X	X	X	X	
5B	M01 - Knowledge transfer and information actions (art 14)	X		X	X		X		X	X	X		P	X	X	X			X
	M02 - Advisory services, farm management and farm relief services (art 15)	X			X		X		X	X	X		P	X	X	X	X		
	M04 - Investments in physical assets (art 17)												P						
	M16 - Co-operation (art 35)	X	X		X		X		X	X	X		P	X	X	X	X	X	
5C	M01 - Knowledge transfer and information actions (art 14)	X		X	X		X		X	X	X		X	P	X	X			X
	M02 - Advisory services, farm management and farm	X			X		X		X	X	X		X	P	X	X	X		

relief services (art 15)																			
--------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

1.4. Support table to show how environmental measure/schemes are programmed to achieve one (or more) environment/climate targets

1.4.1. Agricultural Land

1.4.1.1. M10 - Agri-environment-climate (art 28)

Type of operation or group of type of operation	AECM typology	Total expenditure (EUR)	Total area (ha) by measure or type of operations	Bio diversity FA 4A	Water management FA 4B	Soil management FA 4C	Reducing GHG and ammonia emissions FA 5D	Carbon sequestration / conservation FA 5E
Peatland and Wetland Management	Reduction of drainage, management of wetlands	1,799,370.00 (was 3,082,485.00)	1,080.00 (was 85,465.00)	X	X			X
Buffer Zones and Field Margins	Creation, upkeep of ecological features (e.g. field margins, buffer areas, flower strips, hedgerows, trees)	88,401,047.00 (was 54,648,249.00)	91,780.00 (was 229,501.00)	X	X		X	X
Habitat	Maintenance	226,318,457.99	633,240.00	X	X			

and Arable Land Management	ce of HNV arable and grassland systems (e.g. mowing techniques, hand labour, leaving of winter stubbles in arable areas), introduction of extensive grazing practices, conversion of arable land to grassland.	(was 252,330,872.00)	(was 573,400.00)					
----------------------------	--	----------------------	------------------	--	--	--	--	--

1.4.1.2. M11 - Organic farming (art 29)

Sub	Total	Total area (ha)	Bio	Water	Soil	Reducing	Carbon
-----	-------	-----------------	-----	-------	------	----------	--------

WPMC(16)77 – Annex 3

measure	expenditure (EUR)	by measure or type of operations	diversity FA 4A	managemen t FA 4B	management FA 4C	GHG and ammonia emissions FA 5D	sequestration/c onservati on FA 5E
11.1 - payment to convert to organic farming practices and methods	9,530,754.00 (was 25,882,353.00)	11,153.00 (was 48,000.00)	X	X	X		
11.2 - payment to maintain organic farming practices and methods	16,943,563.00 (was 25,882,353.00)	57,287.00 (was 72,000.00)	X	X	X		

1.4.1.3. M12 - Natura 2000 and Water Framework Directive payments (art 30)

Sub measure	Total expenditure (EUR)	Total area (ha) by measure or type of	Biodiversity FA 4A	Water managemen t FA 4B	Soil management FA 4C	Reducing GHG and ammonia	Carbon sequestration/c onservati on FA
-------------	-------------------------	---------------------------------------	--------------------	-------------------------	-----------------------	--------------------------	--

		operations				emissions FA 5D	5E
12.1 - compensati on payment for Natura 2000 agricultural areas	0	0					
12.3 - compensati on payment for agricultural areas included in river basin manageme nt plans	0	0					

1.4.1.4. M08 - Investments in forest area development and improvement of the viability of forests (art 21-26)

Sub measure	Total expenditure (EUR)	Total area (ha) by measure or type of operations	Bio diversity FA 4A	Water managemen t FA 4B	Soil management FA 4C	Reducing GHG and ammonia emissions FA 5D	Carbon sequestration/c onservation FA 5E
-------------	-------------------------------	--	---------------------------	-------------------------------	-----------------------------	--	---

WPMC(16)77 – Annex 3

8.1 - support for afforestation/creation of woodland	20,740,764.33 (was 22,529,412.00)	3,330.00 (was 3,600.00)	X	X	X		X
8.2 - support for establishment and maintenance of agro-forestry systems	80,000.00 (was 1,000,000.00)	100.00 (was 294.00)	X				X

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 - 2020:

GWEITHREDU'R THEMA DRAWSBYNCIOL: CYFLE CYFARTAL A PHRIF FFYRDIO RHYW

Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r adolygiad blynyddol cyntaf o gynnydd ar weithredu thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw yn y cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd (ESI), sef Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-2020.

Argymhelliad

2. Gwahoddir yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad ac i roi sylwadau yn unol â hynny.

Cefndir

3. Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw (EO & GM) yw un o'r tair thema drawsbynciol (ThD) sydd wedi eu hintegreiddio i mewn i Raglenni 2014-2020. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n rheoli'r rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod rhaid i'r holl weithrediadau a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin, integreiddio erthygl 7 – sef hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a gwrth-wahaniaethu. Dywed y Rheoliad bod cydraddoldeb rhwng dynion a merched ac integreiddio persbectif rhyw i gael eu cymryd i ystyriaeth a'u hyrwyddo drwy gydol y gwaith o baratoi a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys mewn perthynas â monitro, adrodd a gwerthuso. Mae'r Rheoliad hefyd yn galw am gymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu seiliedig ar ryw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oedran neu duedd rywiol wrth baratoi a gweithredu'r rhaglenni. Yn benodol, bydd hygyrchedd i bobl ag anableddau yn cael ei ystyried drwy gydol y gwaith o baratoi a gweithredu'r rhaglenni.
4. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth o genedl wirioneddol ddwyieithog, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn 'laith fyw: iaith byw', sef y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, ac yn ei Chynllun Iaith Gymraeg i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi. Bydd gweithredu'r Rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, gan gefnogi ymdrechion i dyfu'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun twf economaidd a chreu swyddi.

Integreiddio Fertigol a Llorweddol

5. Mae'r model a ddefnyddir i adeiladu cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhyw yn y rhaglenni yn cynnwys mesurau fertigol a llorweddol. Mae mesurau fertigol yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â materion penodol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, er enghraifft, sicrhau y gall pobl â nodweddion gwarchodedig elwa o'r rhaglenni, tra bod mesurau llorweddol yn codi proffil ac yn annog proses o ddysgu mewn

perthynas â chyfle cyfartal ar draws ystod amrywiol o sefydliadau a gweithgareddau.

Cymorth i bobl â nodweddion gwarchodedig.

6. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol o ran cefnogi rhai grwpiau allweddol sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. O ganlyniad i raglenni 2007-2013 derbyniodd dros 649,300 o bobl gymorth: roedd 46% o'r rhain yn ferched, gydag oddeutu 48% o ferched yn ennill cymhwyster. At hynny, roedd 5% o gyfranogwyr o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig (BME) ac roedd 11% o'r cyfranogwyr yn disgrifio eu hunain yn anabl. O'r cyfranogwyr hynny a enillodd gymwysterau, roedd 3.4% o gefndir DU a lleiafrifoedd ethnig ac roedd 8% yn anabl (data mis Gorffennaf 2016).
7. Mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014 – 2020 yn darparu ar gyfer cynigion parhaus y gyllid sy'n cefnogi grwpiau allweddol â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru ac maent yn anelu'n benodol at adeiladu ar lwyddiant y rownd gyllido flaenorol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:
8. **Rhyw:** Bydd prosiect *Cenedl Hyblyg 2* Chwarae Teg yn darparu cymorth sgiliau a mentora i ferched mewn gwaith, yn ogystal â gweithio gyda chyflogwyr i hyrwyddo amrywiaeth a mynd i'r afael ag anfantais rywiol yn y gweithlu. Bydd y prosiect yn cefnogi dros 2,000 o gyfranogwyr, y disgwylir i 75% ohonynt ennill cymhwyster a 40% gael profiad o sefyllfa farchnad lafur well. Bydd y prosiect hefyd yn cynorthwyo 400 o fentrau bach a chanolig i wella eu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth: gan gydnabod gwerth recriwtio, cadw a datblygu staff i'r busnesau ac i'r unigolion fel ei gilydd. Cyfanswm cost y prosiect yw oddeutu £10 miliwn dros dair blynedd.
9. **Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig:** Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect 'Cynyddu cyflogaeth BME a mynd i'r afael â Segurdod Economaidd BME' yn rhaglenni 2007-2013, mae SOVA wedi llwyddo i sicrhau £951,600 o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014 – 2020 i gefnogi prosiect *Sicrhau newid drwy gyflogaeth (ACE)*, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2016. Gyda chost gyfansymiol o £1.2 miliwn, nod y prosiect yw cynorthwyo pobl dduon, lleiafrifoedd ethnig a mudwyr i gael gwaith cynaliadwy drwy ddarparu cymorth hyfforddiant a chyflogaeth.
10. **Pobl Anabl:** Mae *Cynhwysiant Egniïol Cymru*, dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), yn anelu at leihau nifer y bobl economaidd segur a phobl ddi-waith yn y tymor hir, 25 oed a throsodd, ledled Cymru. Mae'r gweithgaredd wedi ei dargedu at grwpiau sydd â chyflyrau iechyd neu anabledau sy'n cyfyngu ar waith a'r rhai sydd dros 54 mlwydd oed. Mae cyfanswm cost y prosiectau (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru) yn £22.5 miliwn ac o hwn mae £14.5 miliwn yn dod o Gronfa Gymdeithasol Ewrop [ESF]. Dechreuodd y gweithgarwch ym mis Mai 2015 ac mae i fod i ddod i ben ym mis Awst 2018.
11. Prosiect dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yw *Inspire 2 Achieve*. Ei nod yw cefnogi 10,952 o bobl ifanc, 11-24 mlwydd oed, sydd ag

Anghenion Dysgu Ychwanegol, i ailymdoddi i'r ddarpariaeth addysg brif ffrwd neu fodolau cwricwlwm gwahanol. Mae cyfanswm cost y prosiect, a gafodd ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2016, yn £28.1 miliwn, a daw £18 miliwn o hwn o gronfa Gymdeithasol Ewrop.

12. **Pobl Ifanc** - Mae cefnogaeth sylweddol wedi'i chyfeirio tuag at bobl ifanc drwy raglenni ESF. Hyd at fis Gorffennaf 2016, roedd 134,031 o bobl ifanc wedi cael eu cefnogi gan y rhaglenni: roedd 46% yn ferched, 5% o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig ac roedd 8% yn anabl. O'r cyfranogwyr, roedd 25,143 o bobl ifanc wedi ennill cymhwyster, ac o'r rhain roedd 43% yn ferched, 4% o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig ac roedd 10% yn anabl. Mae nifer y rhai a enillodd gymhwyster yn ymddangos yn isel, ond dylid nodi mai prif nod y cyllid yw nid ariannu cymwysterau drwy'r gweithgaredd hwn ond galluogi pobl ifanc i aros mewn addysg ffurfiol ac ymgysylltu â chymwysterau prif ffrwd nad ydynt yn cael eu cyfrif yma.
13. Mae cynnydd da felly wedi cael ei wneud eisoes wrth ddatblygu prosiectau drwy raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014 – 2020, sy'n gymorth i leihau nifer y bobl ifanc sydd, neu a allai ddod, yn NEET. Caiff ymyriadau eu targedu o gwmpas anghenion yr unigolyn a byddant, er enghraifft, yn cynnwys profiad gwaith, cymorth sgiliau cyflogadwyedd, hyfforddiant a chymwysterau, datblygu sgiliau STEM a chymorth iechyd a lles, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Hyd yma, mae yna 18 o brosiectau wedi eu cymeradwyo ar draws Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid ym Mlaenoriaeth 3 Cronfa Gymdeithasol Ewrop, 11 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyda chyfanswm cost o £165 miliwn (£96 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop) a 7 yn Nwyrain Cymru gyda chyfanswm cost o £80 miliwn (£25 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop). (Ffigurau ar ddiwedd mis Gorffennaf 2016).

Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd ffurfiol Thema Trawsbynciol Cyfle Cyfartal

14. Mae'n rhy gynnar yng nghylch oes y rhaglenni i adrodd am unrhyw ddata ystyrlon yn ymwneud â chynnydd o ran cyflawni'r dangosydd hwn **'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb, gan gynnwys system fonitro'**. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a ddangosir yn Atodiad 1 yn gweithredu fel canllaw defnyddiol i nifer y gweithrediadau fydd yn cyflawni gweithgaredd i gefnogi'r dangosydd.

Dangosyddion Lefel Prosiect y Thema Drawsbynciol

15. Mae cynnwys targed ffurfiol ar gyfer cyfle cyfartal yn sbardun pwysig i annog prosiectau i fynd i'r afael â'r thema drawsbynciol hon. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl monitro cynnydd yn systematig dros oes y rhaglen.
16. Fodd bynnag, fel y dangosodd tystiolaeth a gasglwyd drwy Werthusiad diweddaraf y Thema Drawsbynciol, mae cyfyngiadau i darged ffurfiol pan fydd

angen dilysu'r ystod eang o weithgareddau cysylltiedig sy'n cael eu cyflawni. Felly, mewn ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad, mae dangosyddion Thema Drawsbynciol ychwanegol (y cytunwyd arnynt ym Mhwyllgor Monitro'r Rhaglen ym mis Mehefin 2015) wedi eu nodi ar lefel prosiect, sy'n galluogi WEFO i gynnwys yr ystod ehangach hon o weithgarwch. Mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr â dangosydd ffurfiol y Thema Drawsbynciol ac fe'u tynnwyd allan o naratif y Cynlluniau Busnes a gyflwynwyd gan weithrediadau sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewrop. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw waith ychwanegol i'r gweithrediad ei wneud, wrth gwblhau ei geisiadau, ond mae'n ei gwneud yn bosibl nodi ac adrodd am arferion da.

17. Rhydd y wybodaeth a geir yn **Atodiad 2** syniad o'r math o weithgarwch sy'n cael ei gyflawni ynghyd â rhestr lawn o ddangosyddion lefel prosiect y Thema Drawsbynciol.

Yr Iaith Gymraeg

18. Disgwylir i geisiadau am gyllid ddilyn telerau dogfen Comisiynydd y Gymraeg 'Grantiau, Benthyciadau a Nawdd', sydd wedi'i chynnwys fel rhan o ganllawiau WEFO ar gyfer ymgeiswyr prosiect. Asesir cynigion prosiect er mwyn sicrhau eu bod wedi manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi siaradwyr y Gymraeg a bod costau cydymffurfio â gofynion y Gymraeg wedi eu cynnwys yn y rhagamcanion ariannol.
19. Rhan o'r broses i Adrannau Llywodraeth Cymru, wrth lunio cynigion ar gyfer arian Ewropeaidd, yw dangos sut y bydd y gweithgaredd yn gymorth i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cefnogi siaradwyr yr iaith. Datblygwyd dull partneriaeth rhwng Tîm y Themâu Trawsbynciol yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac Uwch Swyddogion Polisi Is-adran y Gymraeg sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg a'i hintegreiddio ar draws Adrannau Llywodraeth Cymru. Rhennir gwybodaeth rhwng y ddwy Adran gan ei gwneud yn bosibl sicrhau lefel fwy cyson o gymorth a monitro.
20. Mae WEFO wedi bod mewn cysylltiad â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrth baratoi Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 a bydd swyddogion WEFO yn cael cyfarfodydd rheolaidd ar y cynnydd gyda Swyddfa'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd yn cael gwybod am y camau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion rheoliadol presennol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

21. Mae WEFO, drwy Dîm y Themâu Trawsbynciol, wedi ymroi i gymryd diddordeb yn natblygiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae asesiad ffurfiol y thema drawsbynciol, sy'n cael ei gynnal ar gyfer pob cais a gyflwynir i WEFO, yn rhoi cyfle i wella gweithgarwch yn unol ag egwyddorion y Ddeddf. Mae'r Tîm wedi cynnal cyfres o weithdai, ledled Cymru, er mwyn i gydweithwyr yn WEFO gyflwyno'r Ddeddf a chyfleoedd i WEFO gyfrannu drwy weithredu Rhaglenni'r Gronfa Strwythurol.

Y Camau Nesaf

22. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn tynnu sylw at y cynnydd o ran dangosyddion ffurfiol y Themâu Trawsbynciol a hefyd weithgarwch ychwanegol ar lefel prosiect.

Drafftwyd gan: Chriss O'Connell WEFO
Cymeradwywyd gan: Rob Halford WEFO
Dyddiad: 01/08/2016

Atodiad 1


Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd ffurfiol Thema Drawsbynciol Cyfle Cyfartal 'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb, gan gynnwys y system fonitro'.

Teitl y Gweithrediad	Y Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Blaenoriaeth	Amcan Penodol
Arloesedd SMART (dan drafodaeth fel porth blaenoriaeth ar gyfer y dangosydd hwn)	LIC - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Dwyrain Cymru	1	SO1.2
Cefnogaeth i Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru (Dwyrain Cymru)	LIC - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Dwyrain Cymru	2	SO2.2
Cymorth i Fusnesau Bychain a Chanolig - Busnes Cymru (Dwyrain Cymru)	LIC - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Dwyrain Cymru	2	SO2.4
Busnes Cymdeithasol Cymru Dwyrain Cymru	Canolfan Gydweithredol Cymru	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Dwyrain Cymru	2	SO2.4
Arloesedd SMART (dan drafodaeth fel porth blaenoriaeth ar gyfer y dangosydd hwn)	LIC - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	SO1.2
Cefnogaeth i Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru (Gorllewin Cymru)	LIC - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	SO2.2
Cymorth i Fusnesau Bychain a Chanolig - Busnes Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)	LIC - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	SO2.4
Busnes Cymdeithasol Cymru Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Canolfan Gydweithredol Cymru	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	SO2.4
Law yn Llaw at Gymru Iach ar Waith (Gwasanaeth mewn Gwaith)	LIC - Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	SO1.3
Cenedl Hyblyg 2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Chwarae Teg	Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	SO2.4
Cenedl Hyblyg 2 Dwyrain Cymru	Chwarae Teg	Cronfa Gymdeithasol Ewrop Dwyrain Cymru	2	SO2.3


Atodiad 2

Dengys y siartiau canlynol yr ymrwymiad y mae gweithrediadau wedi ei wneud i gyflawni gweithgarwch sy'n cyfrannu at amcanion y thema drawsbynciol.


Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw



Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgau Cymdeithasol



Themâu Trawsbynciol Cyffredinol



Translator's note: This chart was translated in Excel but did not change in the Word document for some reason.

Gweithgaredd arfer da ar ymgysylltu â rhanddeiliaid
 Datblygu / ymgysylltu â hyrwyddwyr themâu trawsbynciol
 Integreiddio Cymalau Cymdeithasol i mewn i weithgaredd
 Pecynnau cymorth themâu trawsbynciol, gwiriadau iechyd, mecanweithiau gosod y man cychwyn, apiau ac ati

Datblygu pecynnau hyfforddiant themâu trawsbynciol
 Cyflwyno rhaglen hyfforddiant staff ar themâu trawsbynciol
 Gweithgarwch sy'n cyfrannu at ddangosyddion ffurfiol y themâu trawsbynciol mewn blaenoriaethau / amcanion lle nad ydynt yn bresennol.

Dangosyddion Lefel Prosiect

Mae rhai o'r deilliannau cadarnhaol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw ac ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgau Cymdeithasol yn rhyng-gysylltiedig ac fel y cyfryw gellir eu cyfrif ar gyfer y ddwy thema drawsbynciol.

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw

1. Mesurau gweithredu cadarnhaol yn cefnogi merched
2. Mesurau gweithredu cadarnhaol yn cefnogi pobl BME
3. Mesurau gweithredu cadarnhaol yn cefnogi pobl ifanc
4. Mesurau gweithredu cadarnhaol yn cefnogi pobl hŷn
5. Mesurau gweithredu cadarnhaol yn cefnogi pobl anabl
6. Mesurau gweithredu cadarnhaol yn cefnogi
7. Gweithgareddau eraill sy'n herio gwahanu galwedigaethol
8. Gweithgaredd Cyflog Cyfartal
9. Gweithgaredd yn cefnogi cyfranogiad merched yn STEM
10. Gweithgaredd yn hyrwyddo'r Gymraeg
11. Gweithgaredd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg
12. Ymgysylltiad â Grŵp Mynediad i Bobl Anabl
13. Cefnogi rhaglenni iechyd yn y gweithle
14. Darparu gofal plant
15. Darparu gofal arall

Datblygiad Cynaliadwy

1. Datblygu Cod Eco sefydliadol -
2. Datblygu cadwyn gyflenwi gynaliadwy leol
3. Integreiddio seilwaith gwyrdd ar raddfa fechan
4. Integreiddio seilwaith glas ar raddfa fechan
5. Gweithgaredd sy'n cefnogi bio-amrywiaeth ar safle a ariennir drwy'r Gronfa Gymdeithasol
6. Datblygu Cynllun Teithio sefydliadol a mentrau trafndiaeth cynaliadwy.
7. Mesurau effeithlonrwydd adnoddau
8. Cynlluniau rheoli amgylchedd safle
9. BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ardderchog lle bo'n berthnasol
10. Cyrraedd CEQUALL am weithgarwch adeiladu
11. Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) lle bo'n berthnasol

Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgau Cymdeithasol

1. Gweithgaredd sy'n adeiladu sgiliau o fewn y gymuned
2. Gweithgaredd mentora / eiriolaeth
3. Gweithgaredd cymorth gan gymheiriaid
4. Cynlluniau gwirfoddoli
5. Sefydliadau sy'n talu'r cyflog byw

Themâu Trawsbynciol Cyffredinol

1. Gweithgaredd arfer da ar ymgysylltu â rhanddeiliaid
2. Datblygu / ymgysylltu â hyrwyddwyr themâu trawsbynciol
3. Integreiddio Cymalau Cymdeithasol i mewn i weithgaredd
4. Pecynnau cymorth themâu trawsbynciol, gwiriadau iechyd, mecanweithiau gosod y man cychwyn, apiau ac ati
5. Datblygu pecynnau hyfforddiant themâu trawsbynciol
6. Cyflwyno rhaglen hyfforddiant staff ar themâu trawsbynciol
7. Gweithgarwch sy'n cyfrannu at ddangosyddion ffurfiol y themâu trawsbynciol mewn blaenoriaethau / amcanion lle nad ydynt yn bresennol.

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU
CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD
2014-2020**

Trefniadau Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan 2014-2020 i'r Dyfodol

Cyflwyniad

Ffurfiwyd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) (y Pwyllgor) presennol (2014-2020) fel rhan o ymateb Cymru i anogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd, i'r holl Aelod-wladwriaethau ganolbwyntio, integreiddio a symleiddio'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Cymerodd le y ddau PMRh gwahanol oedd yn goruchwyllo'r modd y câi Rhaglenni Cronfa Strwythurol a Datblygu Gwledig 2007-2013 eu gweithredu. Mae dyletswyddau ffurfiol y PMRh wedi eu rhagnodi yn Rheoliadau'r UE ac wedi eu hegluro yn Atodiad 1 i'r papur hwn er gwybodaeth.

Mae cyfuno'r ddau PMRh blaenorol yn un endid wedi golygu wynebu nifer o heriau. O'r cychwyn, gosododd y Pwyllgor ei fryd ar gael mwy o effaith, drwy sicrhau agwedd fwy cydgysylltiedig ac eglur tuag at ddefnyddio'r cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru. Mae hyn, yn ei dro, wedi golygu bod gofyn i Aelodau unigol y Pwyllgor ddatblygu eu dealltwriaeth o amrediad ehangach o offerynnau a threfniadau cyllido yr UE nag o'r blaen. Mae hefyd wedi gosod heriau newydd i'r Awdurdodau Rheoli, er enghraifft, ynghylch y ffordd orau i fesur llwyddiant wrth ddefnyddio'r cronfeydd ac adrodd am gynnydd wrth weithredu. Mae ffurfweddu agendâu cyfarfod y Pwyllgor yn y fath fodd fel ei bod yn bosibl cynnal busnes rhagnodedig y Pwyllgor, ond caniatáu, yr un pryd, ddigon o gyfle i'r Pwyllgor ystyried materion a chyfleoedd ehangach o fewn cyfyngiadau un cyfarfod yn enghraifft arall o'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â rhedeg un PMRh.

Yn y cyd-destun hwn dylid nodi bod Aelodau, mewn gohebiaeth ddiweddar, ynglŷn â chymeradwyo Adroddiadau Gweithredu Blynyddol y Cynllun Datblygu Gwledig drwy weithdrefnau ysgrifenedig, wedi codi pryderon ynghylch yr anghydbwysedd / anghysondeb rhwng y cronfeydd gwahanol wrth adrodd am y PMRh. Mae'r pryderon hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r gwahanol ddyddiadau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ac yn benodol yr oedi cyn cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r oedi hwn wedi golygu dyddiadau cychwyn gwahanol i raglenni a gwahanol raddau o gynnydd wrth eu gweithredu. Fel canlyniad uniongyrchol, dim ond ychydig o wybodaeth sydd wedi bod ar gael, gan gynnwys data monitro ar allbynnau a chanlyniadau, y gellir eu hadrodd wrth y Pwyllgor. Felly, mae amseru cymeradwyo rhaglenni a'u gweithredu ar ôl hynny yn un o'r heriau allweddol eraill sy'n gysylltiedig â chyd-drefnu buddsoddiadau Rhaglen ESI. Mae oedi o'r math a gafwyd yn cael

effaith negyddol ar allu'r Awdurdodau Rheoli i gynllunio a gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig ac wedyn i adrodd ar gynnydd.

Pryder arall a godwyd yn yr ohebiaeth y cyfeirir ati uchod oedd p'un a oes digon o amser ar gael, o dan drefniadau presennol cyfarfodydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, i'r holl agweddau ar fusnes ffurfiol y Pwyllgor gael eu trafod a'u cytuno'n briodol ac i ddigon o amser gael ei neilltuo i drafod materion ehangach. Mae aelod unigol o'r Pwyllgor hefyd wedi cwestiynu, wrth ystyried ei lefel bresennol o ddealltwriaeth ynghylch agweddau gwledig y rhaglenni strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd, a yw ef mewn sefyllfa i gynnig barn ddigon gwybodus ar gynnwys Adroddiadau Gweithredu Blynnyddol y Cynllun Datblygu Gwledig.

Mae'r pryderon hyn a fynegwyd yn ddiweddar, ynghyd â chanlyniad Refferendwm yr UE, wedi peri cryn ansicrwydd ac felly yr angen i sicrhau mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid. Mae'r papur hwn yn ceisio 'cymryd stoc' o'r trefniadau presennol y mae'r Pwyllgor yn eu defnyddio i roi gwybodaeth i randdeiliaid ac yn cynnig, ar gyfer trafodaeth, newidiadau sy'n anelu at wella ei effeithiolrwydd.

Y Ffordd Arfaethedig Ymlaen

Er gwaethaf canlyniad Refferendwm yr UE, bydd angen inni reoli'r cronfeydd strwythurol a buddsoddi yng Nghymru, am gyfnod o dair blynedd eto neu fwy o bosibl, hyd nes y bydd y DU yn dod allan yn ffurfiol o'i pherthynas â'r UE. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod Aelodau'n teimlo'n hyderus bod trefniadau cyfarfodydd y Pwyllgor yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn briodol a bod y pryderon, a amlygwyd yn y cyflwyniad i'r papur hwn, yn cael y sylw priodol. Ystyriaeth sy'n gysylltiedig â hyn, wrth inni symud drwy'r cyfnod pontio disgwyliedig yn ein perthynas ag Ewrop, yw'r angen i'r Pwyllgor ymroi i gael trafodaethau mwy manwl, gyda'r canlyniad bod pwysau amser yn fwy tebygol o gynyddu nag o leihau.

Yn y cyd-destun hwn, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i'r Pwyllgor gynnal ei fusnes, cynigir y dylai hyd cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol gynyddu, gyda chyfarfodydd diwrnod cyfan yn cymryd lle'r cyfarfodydd hanner diwrnod. Fodd bynnag, i wrthbwysu'r galw ychwanegol hwn ar amser yr Aelodau, cynigir hefyd y dylid cynnal y cyfarfodydd yn llai aml, gyda gostyngiad i dri chyfarfod yn hytrach na phedwar cyfarfod y flwyddyn.

Byddai trefnu cyfarfodydd dros ddiwrnod llawn yn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ymroi i drafod materion allweddol yn fwy manwl gyda sesiynau'r bore, dyweder, wedi'u ffurfweddu o gwmpas manylion y cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd unigol, neu efallai'n canolbwyntio ar ystyriaethau rhanbarthol neu thematig, a'r prynhawn wedyn yn cael ei neilltuo i'r busnes mwy ffurfiol o adrodd am gynnydd ac yn y blaen.

Er mwyn sicrhau bod Aelodau'n gallu cymryd rhan mewn ffordd gynhyrchiol yn y cyfarfod yn y fformat newydd hwn, bydd swyddogion yn edrych am ffyrdd o ddarparu gwybodaeth yn gynharach o fewn cylch y cyfarfod, efallai drwy ddefnyddio mwy ar dudalen we Aelod neilltuol, er mwyn caniatáu digon o gyfle i'r Aelodau ymgynghori â'u hetholaethau ar faterion allweddol cyn cyfarfodydd y Pwyllgor. Gall y dull hwn achosi i ddata perfformiad fod wedi dyddio ychydig yn fwy erbyn amser cyfarfodydd y Pwyllgor a drefnwyd, ond efallai yr ystyrir hyn yn 'bris gwerth ei dalu' os bydd yn hwyluso trafodaethau mwy gwybodus, gyda mwy o ddata cyfredol yn cael ei roi ar lafar yn ystod cyfarfodydd.

Mae'n amlwg nad yw'r rhain ond ychydig o'r nifer o ffyrdd y gellid ailfodelu trefniadau presennol y Pwyllgor, gyda'r model a amlinellwyd uchod felly yn cael ei gyflwyno fel ffordd o ysgogi trafodaeth ynglŷn â'r ffordd orau i symud ymlaen.

Argymhelliad

1. Bod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ystyried y materion a'r pryderon a ddogfennwyd yn y papur hwn a, gan gymryd i ystyriaeth y cynnig uchod, yn cytuno ar unrhyw newidiadau y mae'n teimlo bod angen eu gwneud yn fformat cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol.

Atodiad 1

Swyddogaethau a thasgau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni 2014-2020

Yn unol ag Erthyglau 47, 48, 49 a 110 o'r Rheoliadau Darpariaeth Gyffredin ac Erthygl 74 o reoliad Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), rhaid i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni wneud y canlynol:

- **Adolygu'r** modd y mae'r rhaglenni yn cael eu gweithredu a'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd (CE). Wrth wneud hynny, rhaid iddo ystyried data ariannol; allbwn cyffredinol ac allbwn rhaglen-benodol ynghyd â dangosyddion canlyniadau; a cherrig milltir y fframwaith perfformiad y cytunwyd arnynt gyda'r CE.
- Rhaid **ymgyngori â'r Pwyllgor a rhaid iddo fynegi barn** (dros neu yn erbyn) ynghylch unrhyw addasiad i Raglen a roddwyd gerbron gan yr awdurdod rheoli, cyn ei chyflwyno i'r CE.
- Rhaid **ymgyngori â'r Pwyllgor a rhaid iddo fynegi barn** (dros neu yn erbyn) ynglŷn â'r meini prawf sydd i gael eu defnyddio i ddewis gweithrediadau i'w hariannu gan yr EAFRD, o fewn pedwar mis ar ôl i'r CE gymeradwyo'r rhaglen. Yng Nghymru, mae'r gofyniad hwn wedi'i ymestyn i gynnwys **cymeradwyo'r** meini prawf ac felly mae'n cyd-fynd â'r dull sy'n ofynnol ar gyfer ERDF ac ESF.
- Caiff y Pwyllgor gyflwyno **sylwadau** i'r awdurdodau sy'n rheoli'r rhaglenni ynglŷn â gweithredu a gwerthuso'r rhaglenni. Rhaid iddo wedyn fonitro'r camau a gymerir o ganlyniad i sylwadau o'r fath.
- Rhaid i'r Pwyllgor **archwilio**:
 - (a) cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gwerthuso a'r sylwadau yn dilyn canfyddiadau gwerthusiadau;
 - (b) sut mae'r strategaeth gyfathrebu yn cael ei gweithredu;
 - (c) sut mae prosiectau mawr ERDF (os yn berthnasol) yn cael eu gweithredu;
 - (ch) canlyniadau archwiliadau a chyfraddau gwallau yn y rhaglenni;
 - (d) y camau a gymerwyd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched, cyfle cyfartal, a gwrth-wahaniaethu, gan gynnwys hygyrchedd i bobl anabl;
 - (dd) y camau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy;
 - (e) y camau i weithredu unrhyw amodau rhaglen blaenorol sydd heb eu cyflawni os ydynt yn gyfrifoldeb awdurdod rheoli'r rhaglen. Rhaid i'r Pwyllgor hefyd gael gwybod am amodau blaenorol sydd y tu allan i gyfrifoldeb yr awdurdodau rheoli; a
 - (f) gweithredu offerynnau Ariannol, gan gynnwys y rhag-asesiadau, y ddogfen strategaeth, y fethodoleg ar gyfer costau a ffioedd rheolwyr ac adroddiadau blynyddol ar gostau a ffioedd rheolwyr a dalwyd;
 - (ff) unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar berfformiad y rhaglen weithredol.

- Rhaid i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni roi ei **gytundeb** os oes ar yr awdurdodau rheoli eisiau cefnogi gweithrediadau ERDF neu EAFRD sy'n cael eu cynnal y tu allan i ardal y rhaglen ond yn dod â manteision i ardal y rhaglen. Mewn perthynas â gweithrediadau ESF, rhaid i'r Pwyllgor roi ei **gytundeb** os oes ar WEFO eisiau cefnogi gweithrediadau ESF a fydd yn golygu gwariant y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas ag amcanion thematig y rhaglen o 'hyrwyddo cynladwyedd a chyflogaeth o safon a chefnogi symudedd llafur' neu 'fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes'. Ym mhob achos, ceir gofyn am gytundeb naill ai ar gyfer gweithrediadau unigol neu ar gyfer mathau penodol o weithrediadau.
- Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn **archwilio a chymeradwyo**:
 - (a) methodoleg asesu a meini prawf dethol ar gyfer gweithrediadau sydd i gael eu cefnogi gan ERDF, ESF ac EAFRD. Tasg yr awdurdod rheoli ac nid y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yw cymhwyso'r meini prawf a gymeradwywyd a dewis gweithrediadau / prosiectau. Rhaid i'r meini prawf ar gyfer asesu a dethol fod wedi eu cynllunio i:
 - gyfrannu at gyflawni amcanion a chanlyniadau'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen
 - fod yn dryloyw
 - integreiddio themâu trawsbynciol y rhaglen:
 - gwrth-wahaniaethu a chydaddoldeb y rhywiau
 - datblygu cynaliadwy
 - trechu tlodi a chynhwysiant cymdeithasol
 - (b) adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol;
 - (c) cynlluniau gwerthuso ac unrhyw newidiadau i'r cynllun; a
 - (ch) strategaethau cyfathrebu'r rhaglen ac unrhyw newidiadau yn y strategaethau hynny.
- Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn **archwilio** 'Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd' (FfBE) Llywodraeth Cymru, a ddefnyddir gan ymgeiswyr am gyllid a'r awdurdodau rheoli i gynorthwyo i ystyried ffit strategol ac osgoi dyblygu gyda mentrau buddsoddi a pholisi cyhoeddus cyfredol ac arfaethedig yng Nghymru. Bydd diwygiadau i'r FfBE hefyd yn cael eu harchwilio gan y Pwyllgor.
- Mewn perthynas â gweithredu'r rhaglen datblygu gwledig, rhaid i'r Pwyllgor ystyried trefniadau addas i **gymryd rhan ac i gyfnewid gwybodaeth** gyda'r Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth.

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 - 2020:

Diweddariad Cymorth Technegol

Mater

1. Rhoi diweddariad i'r aelodau ynghylch cynnydd o ran datblygu a rhwymo dyraniadau cyllid Cymorth Technegol (TA) ERDF ac ESF.

Argymhelliad

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi'r cynnydd.

Cefndir

3. Gan adeiladu ar weithgaredd llwyddiannus Cymorth Technegol (T/A) yn rhaglenni 2007-2013, mae'r camau gweithredu sy'n cael eu cyllido drwy TA ar gyfer 2014-2020 yn adnodd hanfodol ar gyfer datblygu ymhellach swyddogaethau archwilio a gweinyddu'r Awdurdod Rheoli (yn cynnwys Cyrff Cyfryngol), yr Awdurdod Ardystio a'r Awdurdod Archwilio, ac i gefnogi dulliau cydweithredol ac integredig rhaglenni gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru ERDF ac ESF 2014-20.
4. Defnyddir Cymorth Technegol i gyllido ymyriadau megis:
 - Swyddogaethau gwell o ran **rheoli rhaglenni**, gan gynnwys datblygu a chyflawni rhaglenni integredig a chynaliadwy; datblygu gwybodaeth arbenigol ymysg yr Awdurdod Rheoli a'r rhanddeiliaid; rhoi cyngor a chymorth i ddatblygu gweithrediadau, gan annog arloesedd, cydweithrediad rhyngwladol a rhannu arferion da;
 - Cefnogi'r **Pwyllgor Monitro Rhaglenni** a'i swyddogaethau, gan gynnwys archwilio ac adolygu'r modd y mae'n gweithredu rhaglenni a'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion;
 - Darparu **cyngor technegol a swyddogaethau arbenigol** o safon uchel, i gynorthwyo i ddatblygu rhaglenni a gweithrediadau cynhwysfawr sy'n cydymffurfio, mewn, er enghraifft, caffael, cyllid, arbenigedd gwyddonol, gwasanaethau cyfreithiol, arloesedd a chydymffurfio;
 - Datblygu a gwella **PPIMS** ar gyfer darparu cyllid ESI yn effeithiol ac i fod o gymorth i e-Gydlynid;
 - Darparu **cyngor arbenigol a chymorth** i brosiectau ar integreiddio, gweithredu a monitro'r themâu trawstoriadol.
 - **Ymchwil a gwerthusiad** ar lefel rhaglen, yn cynnwys ymchwil i themâu trawstoriadol; darparu cyngor ac arweiniad i sefydliadau fydd yn elwa; digwyddiadau i ledaenu ymchwil a gwerthusiad a chynnal gweithdai; rheoli ymarferion ymchwil a gwerthuso drwy, er enghraifft, y Grŵp Cyngori Gwerthuso.
 - **Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd**, gan gynnwys rhedeg llinell gymorth cwsmeriaid WEFO, lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu gan gynnwys arweiniad i bartneriaid a buddiolwyr, seminarau, gweithdai a

digwyddiadau rhwydweithio. Hefyd, lledaenu a hybu'r effeithiau sy'n dilyn mwy o integreiddio gyda chronfeydd ESI a rhaglenni sector ehangach megis Horizon 2020.

- **Yr Awdurdod Ardystio (CA)** sy'n gyfrifol am gyflwyno datganiadau wedi eu hardystio o wariant a cheisiadau am daliad i'r Comisiwn (tynnu i lawr) a gwneud yn siŵr fod yna sicrwydd digonol bod y gweithdrefnau a'r dilysiadau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod Rheoli yn arwain at ddatganiadau cywir i'r Comisiwn. Mae'r CA hefyd yn rheoli a monitro canlyniadau'r holl archwiliadau a gynhelir gan yr Awdurdod Archwilio, yr Archwiliad Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilwyr Ewropeaidd.
- **Yr Awdurdod Archwilio** sydd â'r cyfrifoldeb am gyflawni archwiliadau systemau er mwyn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y modd y mae WEFO yn rheoli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.
- **Y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol** a Thîm Ewropeaidd y Trydydd Sector CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) i'w galluogi i roi prawf effeithiol ar weithrediadau rhanbarthol, hybu cydweithredu ac integreiddio ESI a buddsoddiadau eraill, blaenoriaethu gweithrediadau ar lefel ranbarthol ac adeiladu capasiti a chymorth i'r Trydydd Sector.

5. Yn unol â chynllun rhaglenni 2014-2020, bydd cyllid TA yn canolbwyntio ar amcanion penodol, sydd i ERDF ac i ESF hefyd yn:

- Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol;
- Darparu cyngor o safon uchel i bartneriaid allweddol wrth iddynt ddylunio a chyflawni gweithrediadau;
- Gwellu integreiddiad a chyfatebolrwydd buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill a rhaglenni ehangach dan arweiniad y Comisiwn a seiliedig ar Sector.

6. Yng Nghymru, yr Awdurdod Rheoli a'r rhanddeiliaid perthnasol fydd yn gyfrifol am ddarparu'r amcanion penodol ar gyfer TA. Y rhain yw:

- WEFO fel Awdurdod Rheoli;
- Llywodraeth Cymru (EST) a CGGC fel Cyrff Cyfryngol;
- Timau Ymgysylltu Rhanbarthol (4); a
- Thîm Ewropeaidd Trydydd Sector y CGGC

7. Bydd angen i sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a'r Awdurdod Rheoli gymryd nifer o gamau buddsoddi allweddol er mwyn cyrraedd y Dangosyddion Allbwn a osodwyd ar gyfer y TA. Nid yw'r camau gweithredu yn cau y naill a'r llall allan ar gyfer unrhyw rai o'r amcanion ac felly maent wedi eu grwpio o gwmpas 6 cham buddsoddi allweddol, fydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod yr amcanion, y Dangosyddion Allbwn a'r canlyniadau cysylltiedig yn cael eu cyflawni.

Cam gweithredu	Canlyniad	Dangosyddion Nodweddiadol	Gwerth Targed	Corff cyfrifol
Rheoli	Cyfradd afreolaidd-dra < 2% Cyfradd gwallau WEFO < 2% Bodlonrwydd cwsmeriaid 50%	% Ymholiadau wedi eu datrys mewn < 5 diwrnod gwaith	75	WEFO (fel Awdurdod Rheoli)
Partneriaeth a rhwydweithio		Digwyddiadau lledaenu gwybodaeth % Lansio prosiect proffil uchel Digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd	6 50 10	Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a Thîm Ewropeaidd y Trydydd Sector CGGC
Monitro (Cefnogaeth PMRh)				WEFO
Ymchwil a Gwerthusiad		Adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd % y prosiectau y rhoddwyd cyngor Monitro a Gwerthuso iddynt	114 100	WEFO
Gwybodaeth a Chyhoeddus-rwydd		e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd digwyddiadau a drefnwyd gan WEFO Datganiadau i'r Wasg	72 10 150	Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a Thîm Ewropeaidd y Trydydd Sector
Archwilio a rheoli	Cyfradd afreolaidd-dra < 2% Cyfradd gwallau WEFO < 2%	% yr Ymweliadau archwilio	50	WEFO a'r Awdurdod Archwilio

8. Mae'r sefyllfa bresennol o ran rhwymadau, ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.25 fel a ganlyn:

Rhaglen	Dyraniad	Rhwymiad	Wrthi'n cael ei Ddatblygu
ERDF WWV	£19,256,167	£1,953,464	£16,970,120
ESF WWV	£12,837,445	£6,738,721	£9,379,453
ERDF EW	£3,252,996	£202,909	£2,818,597
ESF EW	£3,252,996	£1,039,650	£2,318,597
Cyfanswm	£38,599,604	£9,934,744	£31,307,213

9. Ar 22 Awst 2016, mae 14 o weithrediadau wedi cael eu cymeradwyo ar draws y pedair rhaglen weithredol, ac mae 10 arall 'wrthi'n cael eu datblygu'. Disgwylir y bydd y 10 yma wedi eu cymeradwyo erbyn diwedd Awst, efallai yn gynharach. Disgwylir y bydd y dyraniadau wedi eu rhwymo'n llawn yn rhaglenni ESF, ac ar hyn o bryd disgwylir dros 92% o rwymiad yn y rhaglenni ERDF. Disgwylir y caiff y casgliad o ddangosyddion eu cyflawni'n llawn, wedi eu cofnodi ar lefel yr holl raglenni yn hytrach nag ar lefel rhaglen unigol.
10. Mae'r diagram yn Atodiad 1 yn darlunio'r cysylltiad rhwng yr amcanion penodol, y camau gweithredu, y buddiolwyr, y cyllid a'r canlyniadau a

ddisgwylir ar draws y pedair rhaglen weithredol o ganlyniad i ddefnyddio'r cyllid Cymorth Technegol yn effeithiol yn 2014-2020.

Y Camau Nesaf

11. Gellir darparu diweddariad arall mewn cyfarfod o'r PMRh yn y dyfodol.

Arweinydd WEFO: David Thomas
Cymeradwywyd gan: Sue Price
Dyddiad: 24 Awst 2016

Priority Axis 5: (ESF Axis 4:) Technical Assistance

WW&Vs ERDF £19m

WW&Vs ESF £13m

EWs ERDF £3m

EWs ESF £3m

